SIR FYNWY

MONMOUTHSHIRE




# Adroddiad Blynyddol 2022 Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy

MON MOUTH SHIRE

# Cynnwys


Cynnwys 2
Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 3
Gweithredu'r pum ffordd o weithio 4
Amcanion Llesiant - Cynnydd hyd yma 6
Amcan Llesiant 1 - Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd i blant a phobl ifanc 6
Amcan Llesiant 2 - Ymateb i'r heriau sydd yn gysylltiedig gyda'r newid mewn demograffeg 10
Amcan Llesiant 3 - Amddiffyn a gwella dygnwch ein hamgylchedd naturiol tra'n lliniaru a'n addasu i effaith newid hinsawdd 14
Amcan Llesiant 4 - Yn datblygu cyfleoedd ar gyfer cymunedau a busnesau sydd yn rhan o sir sydd yn ffynnu'n economaidd ac wedi cysylltu'n dda. 20
Craffu'r Amcanion Llesiant 23
Cynghorau Tref a Chymuned - diweddariad 24
Sut ydym yn gwneud? 40
Dangosyddion Cenedlaethol 40
SYG Mesur Llesiant Cenedlaethol 40
Diweddariad o'r Asesiad Llesiant 42
Camau Nesaf 47

# Cynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Ym Mai 2018, roedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, partneriaeth strategol Sir Fynwy o gyrff cyhoeddus, wedi cyhoeddi ei Gynllun Llesiant yn unol gyda gofynion Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Roeddynt wedi cytuno ar yr amcan a rennir o ***adeiladu cymunedau cynaliadwy a dygn***, tair thema drawsbynciol a fydd yn berthnasol i'r holl amcanion a'r camau a'r pedwar amcan llesiant – dau amcan am bobl a dau am le, fel y dengys y tabl canlynol:

| **Pwrpas** | **Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy a Dygn** | |
|---|---|---|
| **Ein dyhead yw:** | Lleihau anghydraddoldebau rhwng cymunedau ac o fewn cymunedau<br>Cefnogi ac amddiffyn pobl fregus<br>Gwireddu'r buddion y mae'r amgylchedd naturiol yn cynnig | |
| **Ein Hamcanion Llesiant yw:** | *Pobl / Dinasyddion* | *Lle / Cymunedau* |
| | Darparu'r dechrau gorau posib mewn bywyd i blant a phobl ifanc | Amddiffyn a gwella dygnwch ein hamgylchedd naturiol tra'n lliniaru a'n addasu i effaith newid hinsawdd |
| | Ymateb i'r heriau sydd yn ymwneud gyda'r newidiadau mewn demograffeg | Datblygu cyfleoedd i gymunedau a busnesau i fod yn rhan o sir sydd yn ffynnu'n economaidd ac wedi cysylltu'n dda. |

Dyma'r pedwerydd adroddiad blynyddol, sydd yn adrodd ar y cynnydd sydd wedi ei wneud ar gyflawni'r amcanion a amlinellwyd yn ein Cynllun Llesiant. Yn ystod 2021/22, roedd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Sir Fynwy wedi uno gyda'r pedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus arall yng Ngwent er mwyn ffurfio Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Gwent. Mae cynllun Sir Fynwy yn amlinellu'r cyfeiriad tan 2023 pan fyddwn yn cytuno ar Gynllun Llesiant newydd ar gyfer Gwent.

Mae'r 'camau' o fewn y Cynllun Llesiant yn ceisio mynd i'r afael gyda rhai o'r heriau mwyaf sylweddol a'r cyfleoedd ar gyfer llesiant yn Sir Fynwy. O ganlyniad, maent yn aml yn gymhleth gan nad oes yna ddatrysiadau cyflym er mwyn mynd i'r afael gyda hwy. Roedd yna fudiad partner arweiniol wedi ei glustnodi ar gyfer pob un o'r 19 cam a chyfrifoldeb y mudiad yw archwilio'r cam hwn ymhellach, adnabod unrhyw gynlluniau gweithredu penodol a'n goruchwylio'r ffordd y mae'n cael ei gyflenwi.

Mae'r pandemig Coronafeirws wedi cyflwyno her ddigynsail i'n ffordd o fyw. Mae gwasanaethau cyhoeddus wedi bod ar flaen y gad wrth i ni geisio cynnal bywydau, atal y feirws rhag ymledu tra hefyd yn cynnig cymorth hanfodol i gymunedau yn Sir Fynwy. Mae gwasanaethau cyhoeddus yn Sir Fynwy wedi parhau i ddarparu gwasanaethau ac addasu a sefydlu gwasanaethau newydd sydd yn cefnogi trigolion a busnesau, yn cefnogi gweithgarwch cymunedol a'n cefnogi llesiant.

Gyda ffocws sylweddol partneriaid y BGC ar ddelio ar y pandemig, mae yna lai o ffocws wedi bod ar ddatblygu rhai o amcanion llesiant y BGC gyda phartneriaid yn ffocysu mwy ar gefnogi llesiant yn ystod y pandemig. Mae'r adroddiad yn darparu diweddariad ar y gweithgarwch sydd wedi ei gyflawni gan y BGC yn ystod 2021/22 o ran y camau yn y Cynllun Llesiant, ac mae hyn yn cynnwys y gweithgareddau y mae partneriaid wedi ei gyflawni, addasu neu newid yn ystod y pandemig.

## Gweithredu'r pum ffordd o weithio

Mae'r pum ffordd o weithio a ddisgrifir yn y Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol wedi parhau i lywio datblygiad y camau yma.

**Tymor hir**
Yn rhinwedd eu natur, mae'r camau sydd wedi eu hamlinellu yn y Cynllun Llesiant yn aml yn faterion cymhleth nad oes modd eu datrys yn y tymor byr. Mae'r Cynllun Llesiant yn ceisio ffocysu ar yr heriau hirdymor yma tra'n sicrhau nad yw gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain yn cael ei gyfaddawdu. Tra bod hyn wedi bod yn heriol i bartneriaid y BGC wrth iddynt ymateb yn syth i effeithiau'r pandemig Coronafeirws, mae cynllunio i fynd i'r afael gyda'r heriau hirdymor yn parhau'n ffocws ar gyfer y BGC.

**Cynnwys a Chydweithredu**
Mae cynnwys yn allweddol er mwyn datblygu'r camau yn y Cynllun Llesiant. Mae'r holl gamau angen partneriaid i gynnwys cymunedau, defnyddwyr gwasanaeth a chymunedau. Mae BGC Sir Fynwy wedi uno gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill yng Ngwent er mwyn ffurfio BGC ar gyfer Gwent. Bydd y cydweithredu hyn yn cynorthwyo'r BGC i gyfrannu at gyflawni'r amcanion llesiant a gwella llesiant pobl ar draws Gwent. Mae hefyd yn gatalydd ar gyfer asesiad llesiant rhanbarthol a Chynllun Llesiant sydd yn sicrhau bod yna gyflenwi ac atebolrwydd ar lefel leol ac yn cynnwys ystod o ymgysylltu ac ymgynghori.

**Ataliaeth**
Mae ataliaeth yn hanfodol o ran y camau sydd yn y Cynllun Llesiant. Mae partneriaid wedi archwilio ac wedi ceisio deall yr achosion sydd wrth wraidd pob un cam, ac yn ceisio eu hatal rhag digwydd neu waethygu. Mae'n hanfodol fod datrysiadau yn cael eu gweithredu ar yr amser cywir, yn chwilio am gamau gweithredu cynnar yn hytrach nag aros am yr argyfwng. Mae'r BGC wedi treulio llawer o amser yn deall gweithrediadau a systemau pob un sefydliad, sydd yn ceisio sicrhau dealltwriaeth lle y mae newid practis yn medru cael effaith a chanlyniadau ar gyfer unigolion ar draws y sir.

**Integreiddio**
Mae'r Bwrdd Rhaglen yn grŵp o uwch swyddogion sydd yn eistedd islaw, ac yn adrodd i'r BGC. Mae'r Bwrdd Rhaglen yno er mwyn hwyluso'r integreiddio ar draws y camau amcan llesiant, ac os oes yna wrthdaro, maent yno er mwyn ystyried sut y mae modd ei ddatrys, rheoli a'i liniaru. Mae gwaith i ddatblygu pob un cam yn mynd i effeithio ar gamau eraill, ac mae rhai o'r camau angen eu datblygu gyda'i gilydd er mwyn sicrhau dull cydlynus o weithio. Mae'r tabl ar y dudalen ganlynol yn dangos sut y mae pob un o'r camau yn integreiddio gyda chamau eraill:

| | ACES | Gordewdra | Llesiant mewn Ysgolion | Iechyd Meddwl | Tai | Pontio’ r Cenedlaethau | Dinasyddiaeth Weithgar | Model o Ofal | Rhwydweithiau o gymorth | Dygnwch yr Ecosystem | Dylunio a Chynllunio | Ynni Adnewyddadwy | Teithio Llesol/Cynaliadwy | Addysg Cynaliadwyedd | Y Fargen Ddinesig | Cysylltiadau addysg a busnes | Trafnidiaeth Wledig | Rhwydweithiau Busnes | Canolfannau ardderchowgrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ACES | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Gordewdra | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Llesiant mewn Ysgolion | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Iechyd Meddwl | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Tai | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Pontio’r Cenedlaethau | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Dinasyddiaeth Weithgar | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Model o Ofal | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Rhwydweithiau o gymorth | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Dygnwch yr Ecosystem | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Dylunio a Chynllunio | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Ynni Adnewyddadwy | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Teithio Llesol/Cynaliadwy | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Addysg Cynaliadwyedd | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Y Fargen Ddinesig | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Cysylltiadau Addysg a Busnes | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Trafnidiaeth Wledig | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Canolfannau Ardderchowgrwydd | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |

# Amcanion Llesiant – Cynnydd hyd yma

Mae amcanion Llesiant y BGC  a'r camau i'w cymryd wedi eu nodi yn y tablau isod ynghyd â manylion y cynnydd sydd wedi ei wneud ar gyfer pob cam.  Mae'r Cynllun Llesiant yn manylu'r dystiolaeth  a ddefnyddiwyd er mwyn "darganfod" y dystiolaeth ar gyfer pob amcan a "diffinio'r" ymateb.

Os yw cam yn cysylltu gydag amcan arall, mae'r delweddau canlynol wedi eu dangos er mwyn dangos y cysylltiad.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Amcanion Llesiant 1 - Darparu'r dechrau gorau posib mewn bywyd i blant a phobl ifanc | | Amcanion Llesiant 2 - Ymateb i'r heriau sydd yn ymwneud gyda newidiadau mewn demograffeg |
| | Amcanion Llesiant 3 - Amddiffyn a gwella dygnwch ein hamgylchedd naturiol  tra'n lliniaru a'n addasu i effaith newid hinsawdd | | Amcanion Llesiant 4 - Datblygu cyfleoedd i gymunedau a busnesau i fod yn rhan   o sir sydd yn ffynnu'n economaidd ac wedi cysylltu'n dda.. |

## Amcan Llesiant 1 – Darparu'r dechrau gorau posib mewn bywyd i blant  a phobl ifanc

| Yr amcanion llesiant y mae hyn yn cyfrannu atynt | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru Ffyniannus (1) | Cymru Gydnerth (2) | Cymru Iachach (3) | Cymru fwy cydradd (4) | Cymru o gymunedau cydlynus (5) | Diwylliant bywiog lle y mae'r Gymraeg yn ffynnu  (6) | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang   (7) |
| Mae'n hanfodol fod pobl ifanc yn medru datblygu'r sgiliau sydd angen arnynt yn y dyfodol er mwyn sicrhau swyddi a chyfrannu at Gymru Ffyniannus. Mae eu hiechyd corfforol a meddyliol yn allweddol er mwyn eu helpu i ddatblygu eu potensial a dod yn oedolion iachus fel rhan o Gymru Iachach, tra hefyd yn cynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon er mwyn creu Diwylliant Hyfyw. Mae'n hanfodol fod yr holl blant a phobl ifanc yn cael mynediad at addysg, cyfleoedd a'r dechrau gorau mewn bywyd. Bydd hyn yn helpu pobl ifanc i gyfrannu at eu cymunedau mewn modd positif wrth iddynt ddod yn oedolion, gan helpu creu Cymunedau Cydlynus. | | | | | | |

| Cyflawni'r Datrysiad | | | |
|---|---|---|---|
| Bydd y BGC yn ffocysu ar: | Cyswllt ag Amcanion | Amcanion | Effaith |
| **Mynd i'r afael gyda Phrofiadau Adweithiol yn Ystod Plentyndod a'r parhad o ran problemau** | | **1, 3, 4, 5** | **Tymor Hir** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **mewn teuluoedd sydd yn mynd o genhedlaeth i genhedlaeth.** | | | |
| **Mynd i'r afael ag anweithgarwch corfforol a gordewdra er mwyn cynyddu iechyd a llesiant cenedlaethau'r dyfodol** | | **3, 5, 6** | **Tymor Hir** |
| **Gweithio ag ysgolion a gwasanaethau i blant er mwyn ffocysu ar lesiant a dull mwy cyflawn yn hytrach na chanolbwyntio ar ganlyniadau academaidd.** | | **1, 3, 4** | **Tymor Canolig** |
| **Cefnogi dygnwch plant a phobl ifanc gyda'u hiechyd meddwl a'u lles emosiynol.** | | **3, 4** | **Tymor Byr** |

**Crynodeb o'r Cynnydd – Camau Wedi Eu Cyfuno:**

Mae'r dull o weithio mewn partneriaeth yn parhau ar draws Sir Fynwy er mwyn deall effaith a lleihau'r risgiau sydd yn gysylltiedig gyda Phrofiadau Adweithiol Adeg Plentyndod ar draws themâu amrywiol. Gan ddefnyddio cyllid a datblygiad rhaglen ehangach, mae ystod o wybodaeth wedi ei defnyddio er mwyn llywio'r gwasanaethau sydd wedi eu darparu i blant a theuluoedd ar draws y sir. Mae'r rhaglen Adeiladau Teuluoedd Cryfach wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid ehangach drwy bartneriaeth Llesiant Sir Fynwy. Mae'r bartneriaeth hon yn ymgorffori Penaethiaid, arweinwyr Ysgolion Iachus, Cydlynwyr Clwstwr ac arweinwyr Seicoleg Addysgol ymhlith nifer o bartneriaid eraill. Mae'r bartneriaeth yn ystyried sut i gryfhau'r dulliau yr ydym yn eu defnyddio i ddelio gyda'r materion a godwyd gan bobl ifanc drwy'r adroddiad Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion fel iechyd a lles emosiynol, mynd i'r afael gyda bwlio, a thrafferthion yn ymwneud gyda thlodi a'n defnyddio data a thystiolaeth ehangach ar y cyd gyda data'r Rhwydwaith er mwyn mynd i'r afael gyda materion y tu fewn a thu allan i amgylchedd yr ysgol, gan gydnabod ei fod *'yn cymryd pentref i fagu plentyn'* a bod plant a phobl ifanc yn rhan o'u cymunedau ehangach pan maent allan o'r ysgol.

Mae partneriaethau wedi parhau'n gryf dros y 12 mis diwethaf gan addasu eu dulliau o weithio i weithio'n seiliedig ar leoedd o fewn cymunedau. Tra bod y gwaith hwn dal yn cael ei ddatblygu, mae gweithio mewn lleoedd nawr yn cael ei gysoni'n fwy agos gydag agenda'r Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig (ISPB) ar gyfer Llesiant a'r dull Cyngor a Chymorth, lle y mae gweithwyr cymdeithasol ataliol yn gweithio mewn cymunedau nawr er mwyn adnabod ac atgyfeirio unigolion i dderbyn help yn gynnar a gwasanaethau ataliol. Mae hyn yn caniatáu bod yna gysylltiadau mwy amserol a phriodol gyda'r gymuned lle y mae modd mynd i'r afael gyda datrysiadau yn y ffordd orau ar y lefel honno, gan gadw plant, teuluoedd ac oedolion i ffwrdd o ddrws blaen y gwasanaethau statudol, os yn bosib, lle y mae datrysiad yn medru cael ei gynnig o fewn y gymuned.

At hyn, mae llinell gymorth i deuluoedd sydd angen help a chymorth wedi ei gyflwyno yn ystod y cyfnod clo cychwynnol ar gyfer Covid. Mae hyn wedi bod yn amhrisiadwy i deuluoedd yn y sir, gan gynnig pwynt cyswllt cyntaf i bobl sydd angen gwybodaeth, cyngor a chymorth. Mae'r materion sydd yn cael eu codi ar y llinell gymorth yn amrywio o gymorth gyda rhianta i faterion iechyd meddwl, a gofyn am adnoddau ar gyfer gofalwyr ifanc a'u teuluoedd.

Yn y 12 mis diwethaf, mae'r llinell gymorth wedi derbyn 297 o alwadau ffôn ac mae wedi profi'n llwyddiannus gan ei fod yn fecanwaith hygyrch iawn i deuluoedd sydd yn chwilio am help a gwybodaeth ar y pwynt cynharaf posib.

Mae'r holl ysgolion ar draws y sir wedi dechrau gweithio tuag at 'atgyfnerthu dull ysgol gyfan at iechyd meddwl a llesiant' sydd yn cynnwys cymorth iechyd meddwl. Yn y cyfnod peilot o'r gwaith hwn, mae

dwy ysgol uwchradd a phedair ysgol gynradd wedi cymryd rhan. Bydd hyn yn parhau i gael ei gyflwyno yn dilyn cadarnhad bod cyllid grant wedi ei dderbyn ar gyfer y 3 mlynedd nesaf. Er mwyn cefnogi mwy o ysgolion, rydym wedi datblygu rhaglen a fydd yn cael ei gweithredu dros amser a bydd ar gael i'r holl ysgolion erbyn diwedd tymor y grant.

Yn unol ag anghenion y disgyblion, mae mynediad at ffynonellau eraill o gymorth (ar draws yr ALl) wedi eu cynnig, gan gynnwys Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Addysg a Chwnsela yn yr Ysgolion, sydd wedi cynnig cymorth mwy dwys ac ymgysylltu gyda dysgwyr unigol. At hyn, mae pob ysgol uwchradd nawr yn meddu ar Seicolegydd Addysgol Cyswllt sydd yn cynnig cymorth i unigolion sydd ag anghenion iechyd meddwl ynghyd â'n cynnig hyfforddiant a'n codi ymwybyddiaeth am faterion penodol. Mae hyfforddiant sydd wedi ei ddarparu mewn ysgolion yn y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl i Ieuenctid mewn Ysgolion, hyfforddiant sydd wedi ei lywio gan drawma ac atal hunanladdiad a hunan-niweidio sydd wedi ei ddefnyddio gan yr ysgolion cynradd. Mae'r gwasanaeth wedi datblygu pecyn gymorth er mwyn cefnogi dysgwyr gyda *'Emotionally Based School Avoidance'* (EBSA). Mae hyn wedi bod o bwysigrwydd anhraethol ar ôl i'r ysgolion ddychwelyd ar ôl y pandemig.

Mae gwaith wedi parhau i ddarparu ffynonellau eraill o gymorth ar gyfer plant a phobl ifanc drwy gyfrwng Panel Help Cynnar Sir Fynwy ac asiantaethau fel y Gwasanaethau Ieuenctid a rhaglen 'In Reach' yr Adran Gwasanaethau Plant a'r Glasoed.

Y tu hwnt i ysgolion, mae Gwasanaeth Ieuenctid wedi darparu'r prosiect Shift, sydd wedi cynnig cymorth na sy'n glinigol i bobl ifanc rhwng 11 a 25 mlwydd oed yn Sir Fynwy a oedd yn profi materion sydd yn effeithio ar eu hiechyd meddwl a/neu lesiant emosiynol. Cynigiwyd y cymorth hwn ar lefel un i un gan Weithwyr Ieuenctid cymwys ac wedi cofrestru gyda'r EWC, dros gyfnod o a 6 i 8 wythnos gan ddefnyddio dulliau a methodoleg Gwaith Ieuenctid sy'n cynnwys gwrando, cefnogi, mentora, eirioli ac atgyfeirio. Mae cymorth un i un wedi ei ddarparu mewn Ysgolion Cynradd, B6 Ysgolion Cynradd, Canolfannau Ieuenctid, y Gymuned a thrwy dechnoleg ddigidol, gan sicrhau bod y gwasanaeth yn cwrdd â'r defnyddwyr yn y lle maent hwy.

At hyn, roedd gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion wedi ei ehangu drwy wasanaethau trydydd sector. Comisiynwyd MIND Sir Fynwy i gynnig cymorth wedi'i dargedu i bobl ifanc sydd yn dechrau profi materion iechyd meddwl.

Hefyd, er mwyn delio gyda'r cyfnod pontio allweddol ym mywyd y person ifanc, mae sawl rhaglen sydd yn cefnogi anghenion pontio disgyblion blwyddyn 6 wedi eu cyflwyno, sydd yn cynnwys:

- Prosiect Pontio Gwasanaethau Ieuenctid
- Grŵp Pontio Blwyddyn 6 fel rhan o'r Tîm Therapi Chwarae
- Dyfarniad Gwneuthurwr Chwarae Datblygu Chwaraeon a Chynlluniau Llysgenhadon
- Inspire 2 Achieve
- ADY Pontio ar draws y Cyfnodau: Symud Ymlaen, Symud Lan

Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae gwaith hefyd wedi ei wneud gan y Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc. Newidiwyd y model cyflenwi yn sgil y cynnydd yn y nifer o ofalwyr ifanc. Roedd addasu'r fframwaith cyflenwi wedi caniatáu model mwy teilwredig o gyflenwi ar gyfer pobl ifanc. Roedd hyn yn cynnwys ystod o weithgareddau agored, teithiau a chyfleoedd i gael amser i ffwrdd o'u rôl gofalu ond mae hefyd yn cynnig cymorth ychwanegol i ofalwyr ifanc sydd yn cael trafferth gyda materion penodol fel mynychu ysgolion, llesiant emosiynol, hunanhyder ac eiriolaeth gyda gwasanaethau i oedolion, iechyd, neu asiantaethau eraill fel sydd angen.

Mae datblygiad sylweddol yn y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys sefydlu grwpiau gofalwyr ifanc, mewn lleoliadau cynradd ac uwchradd. Mae'r rhain wedi rhoi cyfle i ofalwyr ifanc i gwrdd â gofalwyr eraill sydd â chyfrifoldebau gofalu ac mae hyn wedi chwarae rhan sylweddol o ran gwella hunan-hyder a hunan-werth y bobl ifanc a oedd yn mynychu. Mae hefyd wedi bod yn gyfle defnyddiol i adnabod mwy o ofalwyr ifanc nad oedd yn wybyddus i ni cyn hyn ac maent wedi dechrau mynychu'r sesiynau grŵp. Mae hyn yn caniatáu bod modd ehangu gwasanaethau i ofalwyr ifanc sydd newydd eu hadnabod a'n sicrhau ein bod yn cefnogi eu llesiant.

Yn ogystal â hyn, er mwyn cyflenwi'r Strategaeth '*Pwysau Iach: Cymru Iach',* mae Llywodraeth Cymru wedi darparu Timau Iechyd Cyhoeddus Lleol gyda'r capasiti i fynd i'r afael gyda dulliau system gyfan at Bwysau Iach, gan gydnabod natur gymhleth materion iechyd meddwl a'n amlygu'r rôl y mae ystod eang o fudd-ddeiliaid yn chwarae wrth gynnig datrysiadau. Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae Tîm Iechyd Cyhoeddus Aneurin Bevan wedi recriwtio Prif Swyddog ac Uwch Swyddog Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus a Swyddog Cymorth Tîm er mwyn cydlynu'r gwaith hwn ar draws Gwent, a bydd hyn yn mynd i'r afael gyda'r amgylchedd bwyd a gweithgarwch corfforol. Mae'r dull system gyfan yn cynnwys naw cam sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac wedi ei lywio gan waith Public Health England a Phrifysgol Leeds Beckett. Mae Tîm Iechyd Cyhoeddus Aneurin Bevan yn gweithredu'r camau cynnar yn y broses hon, gan gynnwys llywodraethiant, diffinio, mapio'r system a'n datblygu naratif ar gyfer budd-ddeiliaid a chymunedau.

At hyn, mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent sydd newydd ei ffurfio wedi comisiynu yr Athro Syr Michael Marmot a Sefydliad Cydraddoldeb Iechyd University College London i lywio datblygiad Cynllun Llesiant Gwent ar gyfer 2023-28 gyda'r nod o leihau anghydraddoldebau rhwng ein cymunedau ar draws Gwent. Wrth gydnabod bod angen ffocws cydweithredol cryf, bydd sicrhau bod Gwent yn dod yn 'rhanbarth Marmot' yn cynnwys rhoi sylw cychwynnol ar flynyddoedd cynnar, pwysau iachus (gan gynnwys ymgysylltu yn y system dull gyfan) ac atal ysmygu.

Mae'r data mwyaf diweddar o 'Raglen Mesur Plant' gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn atgyfnerthu penderfyniad Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent i ddod yn 'rhanbarth Marmot' o feddwl bod yna amcangyfrif, yn 2020/21, o 1,097 o blant rhwng 4 a 5 mlwydd oed yng Ngwent wedi dechrau ysgol tra eu bod yn ordew, sydd yn gynnydd o 6.5 pwynt canran ers 2018/19.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae arweinwyr y camau gwahanol wedi ceisio alinio'r rhaglenni yma yn well, ynghyd â'r cyllid ac adnoddau, buddsoddiad, a chydweithio er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. At hyn, mae'r model gweithio sy'n seiliedig ar leoedd ac ymgysylltu'n fwy gyda'r gymuned wedi parhau i ddatblygu. Mae llais plant a phobl ifanc yn y broses o ddylunio gwasanaethau nawr yn fwy naturiol ac yn dod yn rhywbeth arferol ar draws pob maes o waith, gyda'r pwyslais nawr yn cael ei osod ar help ac ymyrraeth gynnar, sydd yn hanfodol o ran practis, dylunio rhaglenni a chyflenwi.

## Amcan Llesiant 2 – Ymateb i'r heriau sydd yn gysylltiedig gyda'r newid mewn demograffeg

### Yr amcanion llesiant y mae hyn yn cyfrannu atynt

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru Ffyniannus (1) | Cymru Gydnerth (2) | Cymru Ffyniannus (3) | Cymru Gydnerth (4) | Cymru o gymunedau cydlynus (5) | Diwylliant bywiog lle y mae'r Gymraeg yn ffynnu (6) | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang (7) |

**Er mwyn sicrhau Cymunedau Cydlynus gyda chyfle cyfartal i bobl o bob oedran fel eu bod yn medru byw a gweithio yn Sir, Fynwy, mae'n hanfodol fod yna dai addas a fforddiadwy i bawb. Bydd Cymuned Cydlynus yn sicrhau bod yna gyfleusterau ar gael i ofalu am bobl o bob oedran. Er bod swyddi cyflogedig yn rhan allweddol o Gymru Ffyniannus, mae gwirfoddoli a dinasyddiaeth weithgar hefyd yn chwarae rôl allweddol er mwyn cefnogi a chyfrannu at adeiladu cymunedau a gwella iechyd.**

### Cyflenwi'r Datrysiad

| Bydd y BGC yn ffocysu ar: | Cysylltiad ag amcanion | Amcanion | Effaith |
|---|---|---|---|
| **Mynd i'r afael eto gyda chyflenwad a'r cyfuniad o stoc tai er mwyn sicrhau bod tai addas a fforddiadwy ar gael i bob grŵp demograffeg** | | **1, 3, 4, 5** | **Tymor Hir** |
| **Dysgu o bractis da o fannau eraill er mwyn archwilio'r potensial ar gyfer byw mewn modd sydd yn pontio'r cenedlaethau, nawr ac yn y dyfodol** | | **4, 5** | **Tymor Canolig** |
| **Hyrwyddo dinasyddiaeth weithgar drwy wirfoddoli, bancio amser, cyfnewid sgiliau rhwng pobl a chyfrifoldebau cymdeithasol corfforaethol** | | **1, 3, 5** | **Tymor Byr** |
| **Datblygu model o ofal sydd wedi adeiladu ar les gyda phobl yn gofalu am ei gilydd yn hytrach na thrwy ddarpariaeth gofal ffurfiol** | | **3, 4, 5** | **Tymor Canolig** |
| **Datblygu rhwydweithiau ar gyfer pob oedran sydd yn cefnogi llesiant pobl yn eu cymunedau lleol, gan gynnwys presgripsiynu cymdeithasol** | | **1, 3, 4, 5** | **Tymor Byr** |

**Crynodeb o'r Cynnydd – Camau Wedi Eu Cyfuno:**

Yn 2021-2022, roedd cyfanswm o 361 o anheddau wedi eu hadeiladu yn Sir Fynwy, gyda 35 (9.7%) yn anheddau fforddiadwy, Roedd y mwyafrif (21) o'r tai fforddiadwy yma sydd wedi eu cwblhau ar safle Heol yr Eglwys, Cil-y-coed, sydd wedi ei gymeradwyo o dan bolisi 'safleoedd na sydd wedi eu dynodi' blaenorol y Cyngor. At hyn, roedd £23k wedi ei dderbyn fel rhan o daliadau symiau gohiriedig a wnaed tuag at dai fforddiadwy o'r safleoedd bach. Roedd y rhain wedi eu

cwblhau o fewn y fframwaith cyfredol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol a Fabwysiadwyd. Dros yr un cyfnod, mae cyfanswm o 39 o dai fforddiadwy wedi eu caniatáu, sydd oll wedi eu lleoli yn Vinegar Hill, Gwndy, sef Safle Strategol y Cynllun Datblygu Lleol a Fabwysiadwyd (cydymffurfiaeth gyda'r polisi yn 25%). Rhoddwyd caniatâd ar gyfer cyfanswm o 155 o gartrefi yn safle Vinegar Hill, gyda'r 116 sy'n weddill yn gartrefi marchnad. At hyn, bydd 59 o gartrefi marchnad wedi eu caniatáu ar safleoedd bach mewn mannau eraill yn y Sir. Mae symiau gohiriedig priodol wedi eu sicrhau.

Mae yna waith yn cael ei wneud ar y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig, ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir a'r Ail Alwad am Safleoedd Ymgeisio wedi ei gynnal yn ystod Haf 2021. Mae'r Safleoedd Ymgeisio yn gwahodd tirfeddianwyr, datblygwyr a'r cyhoedd i gyflwyno tir ar gyfer ei ddatblygu, ail-ddatblygu neu'i ddiogelu yn y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig. O'r holl Safleoedd Ymgeisio sydd wedi eu derbyn, roedd tua 125 o Safleoedd Ymgeisio yn cynnig safle ar gyfer defnydd preswyl, gydag un cynnig ychwanegol ar gyfer gofal preswyl. Mae'r asesiad o'r safleoedd yma yn parhau er mwyn sicrhau bod safleoedd yn y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig yn gynaliadwy, hyfyw, bod modd eu cyflenwi a'u bod yn diwallu anghenion cymunedau Sir Fynwy.

Y prif ystyriaethau ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig yw mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, darparu tai fforddiadwy, cyfuniad tai priodol a mynd i'r afael gyda newid hinsawdd. Mae cymunedau lleol a mudiadau wedi eu hymgynghori yn ystod y broses Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig ac yn rhan o'i ddatblygiad yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod eu hadborth a'u gwybodaeth yn cael eu derbyn a'u hadlewyrchu yn y cynigion a'n ymgorffori'r hyn y mae cymunedau yn dymuno.

Bydd y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig yn darparu'r fframwaith polisi cynllunio lleol er mwyn darparu tai fforddiadwy o fewn y Sir. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ym Medi 2022 er mwyn gofyn am benderfyniad ynglŷn â sut i fwrw ymlaen gyda'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig yn sgil llythyr Llywodraeth Cymru ar y Strategaeth a Ffefrir. Bydd maniffesto'r weinyddiaeth newydd yn arwain at 50% o dai fforddiadwy ar bob un safle newydd a bydd hyn yn ystyriaeth allweddol o ran sut i ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig.

O ran byw a phontio rhwng y cenedlaethau, effeithiwyd ar y gwaith yma yn sgil y pandemig. Mae angen ail-ystyried lle y mae yna gyfleoedd o fewn y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig er mwyn datblygu mwy o gydweithredu a thargedu drwy gyfrwng datblygiad cymunedol, y cysyniad o rannu cartref, yn enwedig wrth i'r cyfyngiadau a osodwyd yn ystod y pandemig gael eu llacio a bywyd yn mynd nôl i normal. Bydd hyn yn parhau yn ystod 2022 – 2023.

Mae'r hyn sydd wedi ei ddysgu yn y flwyddyn flaenorol wedi amlygu'r hyn sydd angen ei ddatblygu'n effeithiol ac mae hyn yn cynnwys:

- Sicrhau bod yna ymrwymiad o adnoddau ar y cyd gyda llywio cynllun gweithredu fel ymgais i sicrhau'r adnoddau hynny yn dilyn y gwaith o sgopio'r problemau gan fod datrysiadau posib yn medru bod yn gyfyngedig.
- Yn sicrhau mwy i ymgysylltu yn y cynnydd a wneir gan dimau allweddol a staff/swyddogion sydd yn rhan o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus/Grŵp Cyflenwi Lleol Sir Fynwy (Bwrdd Rhaglen)

Mae modelau o ofal, rhwydweithiau ar gyfer pob oedran a dinasyddiaeth weithgar, wedi profi cryn dipyn o gynnydd yn y flwyddyn ddiwethaf, wrth i ni fanteisio ar gyfleoedd i weithio yn fwy agos gyda chymunedau yn ystod y pandemig. Mae model Rhwydwaith Cymorth Cymunedol ar gyfer gweithio wedi ei addasu yn ystod 2021/22, ac yn cynnwys 'rhaglen beilot' sydd wedi ei ariannu gan Gronfa Trawsnewid Gwent a'r Gronfa Gofal Integredig, o dan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r peilot wedi gosod y rôl Ymarferydd Gwaith Cymdeithasol Arweiniol ar gyfer Datblygu

Cymunedau a Phartneriaethau, 2 x Gweithiwr Cyswllt Cymunedau a Phartneriaethau a 2 x Cydlynydd Llesiant a Mentergarwch o fewn tîm canolog sydd yn cydlynu'r dull sydd yn seiliedig ar leoedd.

Roedd y peilot wedi sicrhau bod cyngor arbenigol ar gael i holl drigolion y sir, nid oes ots beth oedd eu nodweddion diffiniedig, neu'r problemau, gan gynnig cymorth yn y sefyllfaoedd ac i'r unigolion mwyaf cymhleth. Roedd yn ceisio adeiladu ar y cyfleoedd a ddaeth i law yn ystod y pandemig, drwy gynnig cymorth gwaith cymdeithasol mor gynnar ag sydd yn bosib yng nghalon y gymuned. Roedd hyn wedi hwyluso'r gwaith o ddarparu datrysiadau sydd yn cael eu harwain gan y gymuned a chymorth i unigolion sydd yn cael trafferth am amryw o resymau ond ni fyddent yn cyrraedd y trothwy ar gyfer gofal neu gymorth statudol. Mae'n cydnabod yr angen i gadw pobl yn iach yn eu cymunedau ac adeiladu perthynas ag eraill sy'n seiliedig ar le a chymorth cymunedol.

Roedd y model sy'n seiliedig ar le yn ddull 'system gyfan tuag at ymyrraeth ac ataliaeth gynnar, ac yn gyson gyda'r gwasanaethau statudol a oedd wedi caniatáu gweithwyr cymunedol allweddol i ymgysylltu a chael sgyrsiau gyda phobl yn ein cymunedau sydd angen rhyw ffurf o help neu gymorth er mwyn cynnal eu Llesiant. Roedd hyn yn gyson gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a'r egwyddor datblygiad cynaliadwy o gynnwys. Mae'n cydnabod y pwysigrwydd o gynnwys pobl mewn penderfyniadau sydd yn effeithio arnynt, gan gynnwys y bobl a'r cymunedau lle'r ydym yn ceisio gwella eu llesiant. At hyn, mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 (yn galw am fwy o integreiddio rhwng gwasanaethau gyda dull sydd yn ffocysu ar y lefel leol tuag at ddarparu gofal a chymorth i bobl, gyda mwy o ffocws ar lesiant, ymyrraeth gynnar ac ataliaeth.

- Drwy osod anghenion lles unigol o fewn y cyd-destun ehangach o ddatblygu cymunedol sy'n seiliedig ar asedau a dinasyddiaeth weithgar, mae hyn yn ddull system gyfan arloesol tuag at waith ataliol. Mae gweithio ar y cyd ag unigolion yn medru bod yn broses fregus sydd nid yn unig angen y sgiliau rhyngbersonol traddodiadol o fyfyrio a gwrando'n actif ond hefyd caniatáu bod modd dod i ddatrysiadau teilwredig sydd yn seiliedig ar rhyngddibyniaeth a chyfeillgarwch. Roedd wedi meithrin y canlynol:
- Cysylltiadau naturiol, sydd yn darparu strwythur o gymorth i bobl i fyw bywydau dymunol a chyflawn
- Dwyn pobl ynghyd yn unol gyda diddordebau/amgylchiadau a rennir, er mwyn cefnogi ei gilydd yn annibynnol o unrhyw gefnogaeth neu ymyriadau allanol. Mewn geiriau eraill, mae pobl yn gwneud pobl yn hapus.
- Yr angen i fod yn brysur, wedi cysylltu ag eraill ac wedi eu cynnwys. Mae hyn yn hanfodol i lesiant unigolyn.
- Pobl yn dymuno cymryd rhan weithgar, nid derbyn pethau; mae pobl yn teimlo fwy o ymdeimlad bwrpas a hunaniaeth os ydych yn cyfrannu a'n cael eu cynnwys.
- Pobl yn gwirfoddoli er mwyn adeiladu cymunedau gwell.
- Y sgyrsiau cywir gyda'r bobl gywir; ail-osod perthnasau, creu cyfleoedd newydd a'n datblygu ymatebion newydd i'r anghenion.

Roedd y gwaith o weithio gyda phartneriaid wedi ei alinio gyda Gofal Cymdeithasol er mwyn cynnig y prawf o gysyniad ac roedd yn ddibynnol ar sawl elfen yn gweithio gyda'i gilydd, a hynny o ddealltwriaeth o les a rennir i'r nodwedd o 'le' sy' uno. Nid oedd yn benodol ar gyfer unigolion, gwasanaethau, mudiadau,, ffynonellau cyllido ayyb neu'r hyn sydd yn gyrru polisi ond roedd wedi ei gydlynu er mwyn medru gweithredu egwyddorion allweddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, sef.

- Newid y ffordd yr ydym yn diwallu anghenion gofal a chymorth pobl (gosod unigolion, a'u hanghenion, wrth galon pethau a'n rhoi dewis a rheolaeth dros y ffordd bersonol y mae canlyniadau yn cael eu sicrhau)
- Helpu pobl i fanteisio ar eu llesiant
- Ail-osod y balans o ran y ffocws ar ofal a chymorth a symud at ymyrraeth gynt
- Cynyddu gwasanaethau ataliol o fewn y sir
- Datblygu partneriaeth gref a chydweithredu rhwng mudiadau
- Cydnabod bod y gymuned ehangach eisoes yn rhan o'r gymuned ond nid oes un maint yn addas ar gyfer pawb gyda chymunedau yn wahanol, ac felly, rhaid i ddatrysiadau fod yn wahanol.

Mae'r model wedi ei adeiladu ar gyfoeth o ddysgu drwy gyfrwng ein cydweithwyr ym maes gofal cymdeithasol ac iechyd sydd wedi ysbrydoli'r model Rhwydweithiau Integredig o Ofal sydd yn datgan, '*'Increased resilience and the sustainability of preventative approaches is gained if we regard ourselves as a place, not an organisation by creating place-based well-being teams designed to develop creative ways of working, which overcome departmental or agency silos to make the best use of the resources available within the area in question."*

Mae'r prawf o gysyniad wedi darparu llwyfan ar gyfer sicrhau cyllid pellach drwy'r gronfa Trawsnewid Rhanbarthol, y gronfa Gofal Integredig a'r Grant Cymorth Tai, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, i fod yn arloesol a phrofi'r fethodoleg o osod adnoddau ac arbenigedd yng nghalon cymunedau, gan weithio mewn modd hollol integredig gyda phartneriaid ehangach er mwyn datblygu 'system dull gyfan' tuag at ddatblygu cymunedau a llesiant unigolion sydd yn cadw ein trigolion a'n cymunedau wrth wraidd hyn oll, gyda'r nod o adeiladu cymunedau cynaliadwy a dygn ar gyfer y cenedlaethau presennol a rhai'r dyfodol.

# Amcan Llesiant 3 - Diogelu ac amddiffyn dygnwch ein hamgylchedd naturiol tra hefyd yn lliniaru ac yn addasu i effaith newid hinsawdd

## Yr amcanion llesiant y mae hyn yn cyfrannu atynt

| Cymru Ffyniannus (1) | Cymru Gydnerth (2) | Cymru Iachach (3) | Cymru mwy cydradd (4) | Cymru o gymunedau cydlynus (5) | Diwylliant bywiog lle y mae'r Gymraeg yn ffynnu (6) | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang (7) |
|---|---|---|---|---|---|---|

Yn ogystal â bod yn allweddol i lesiant amgylcheddol, mae Amgylchedd Cydnerth yn hanfodol i'r economi leol, ac i les corfforol ac iechyd meddwl ac adeiladu Cymunedau Cydlynus. Yn Gyfrifol ar Fyd Eang, rydym angen gweithio gyda'n gilydd er mwyn lleihau'r carbon a'r llygredd yr ydym yn creu drwy fynd i'r afael gyda thrafnidiaeth gynaliadwy a'r ffordd yr ydym yn defnyddio a'n creu ynni. Mae gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn allweddol i hyn er mwyn eu helpu i ddeall eu rôl yn gofalu am ein hamgylchedd, lleihau ein heffaith amgylcheddol a chydnabod y pwysigrwydd o "feddwl yn fyd eang ond gweithredu'n lleol".

## Cyflenwi'r Datrysiad

| Bydd y BGC yn ffocysu ar: | Cysylltiad ag Amcanion | Amcanion | Effaith |
|---|---|---|---|
| **Gwella dygnwch yr ecosystemau drwy weithio ar raddfa fwy (tirwedd) er mwyn rheoli bioamrywiaeth a manteisio i'r eithaf ar fuddion fel rheoli'r risg o lifogydd naturiol** | | **1, 2, 3** | **Tymor Hir** |
| **Yn sicrhau bod polisi dylunio a chynllunio yn cefnogi cymunedau cryf, hyfyw ac iachus sydd yn dda i'r bobl a'r amgylchedd.** | | **1, 2, 3, 5, 7** | **Tymor Hir** |
| **Caniatáu cynlluniau ynni adnewyddadwy, yn enwedig cynlluniau sydd yn eiddo i gymunedau, a'n datblygu datrysiadau newydd gan gynnwys storio, ynni deallus, gwres a chyflenwadau lleol.** | | **1, 5, 7** | **Tymor Byr** |
| **Yn caniatáu teithio llesol a thrafnidiaeth gynaliadwy er mwyn gwella ansawdd yr aer a sicrhau buddion iechyd eraill.** | | **1, 5, 6, 7** | **Tymor Canolig** |
| **Gweithio gyda phlant a phobl er mwyn gwella eu hymwybyddiaeth, yn deall a'n gweithredu ar gyfer datblygu cynaliadwy a'n gwneud hwy'n ddinasyddion byd-eang cyfrifol ar gyfer y dyfodol.** | | **1, 2, 3, 4, 5, 6, 7** | **Tymor Hir** |

**Crynodeb cynnydd o'r holl gamau wedi eu cyfuno:**

Roedd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy wedi comisiynu JBA Consulting er mwyn archwilio cyfleoedd ar gyfer cydweithio rhwng partneriaid Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy er mwyn ymateb yn y ffordd orau i'r argyfwng hinsawdd a natur ar lefel leol.
Mae'r prosiect yn ceisio ystyried yr arferion gwaith ac argymell cyfleoedd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ymateb yn y ffordd orau bosib i'r argyfwng hinsawdd a natur.

Roedd yr amcanion prosiect a osodwyd yn cynnwys:

- Adnabod arferion cyfredol a'r uchelgais ar gyfer ymateb i'r argyfwng natur a hinsawdd ar gyfer pob un partner sydd yn rhan o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Adnabod y cyfleoedd penodol lle y mae partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cydweithio er mwyn rhannu asedau i leihau allyriadau carbon
- Chwilio am gyfleoedd newydd i sicrhau canlyniadau gwell, neu ffyrdd o gynyddu capasiti, drwy weithio mewn ffordd mwy cydlynus; a
- Cryfhau dealltwriaeth o weithio mewn partneriaeth wrth ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ar draws partneriaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Dewiswyd pedwar maes gweithredol fel ffocws ar gyfer y prosiect. Roeddynt wedi eu cytuno gan Fwrdd Rhaglen y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'u dilysu gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy ar yr un pryd. Roedd y meysydd a ddewiswyd yn rhai a gredwyd bod cydweithredu yn medru gwella'r effaith o fynd i'r afael gyda'r argyfwng hinsawdd a natur.

Cafodd y cyfleoedd eu hystyried o dan bedair thema weithredol lle y nodwyd y cyfleoedd i fynd i'r afael gyda'r argyfwng hinsawdd a natur. Roedd y pedwar prif amcan strategol yn cynnwys:

- Adeiladau: Lleihau'r ôl-troed carbon ar gyfer ein hadeiladau drwy rannu asedau a gweithio ystwyth.
- Fflyd: Hwyluso'r shifft tuag at fflyd o gerbydau trydanol drwy ddatblygu rhwydwaith gwefru a rennir ar gyfer cerbydau trydan
- Gofod gwyrdd: Manteisio i'r eithaf ar liniaru carbon a'r posibilrwydd o addasu asedau seilwaith gwyrdd
- Caffael: Archwilio cyfleoedd ar gyfer caffael ar y cyd er mwyn manteisio ar gadwyno cyflenwi lleol a lleihau carbon

Y nod oedd sicrhau bod yr amcanion yn amlochrog yn eu natur, a'n ceisio sicrhau buddion niferus wrth ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur. Er enghraifft, bydd y pwyslais ar seilwaith gwyrdd nid yn unig yn arwain at fuddion o ran secwestriad carbon, a'n mynd i'r afael gyda newid hinsawdd ond hefyd yn arwain at fuddion ychwanegol wrth ddarparu cynefinoedd i wella bioamrywiaeth a chyfrannu at liniaru llifogydd a chwlio.

Wrth edrych at y dyfodol a chreu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Gwent, mae'r glasbrint cydweithredol o bosib yn medru cael ei weithredu ar lefel ehangach. Mae modd bwrw ymlaen gyda'r camau gweithredu yma ar raddfa dipyn yn fwy ac mae'n medru darparu sylfaen gadarn ar gyfer gweithio ar draws Gwent i fynd i'r afael gyda'r argyfwng hinsawdd a natur.

Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae cyfres o argymhellion wedi eu datblygu ynglŷn â sut y mae cydlafurio yn medru cynnig buddion o ran adeiladau, fflyd, gofodau gwyrdd a chaffael ymhlith partneriaid Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Roedd rhai o'r argymhellion a gyflwynwyd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynnwys:

- Ail-sefydlu'r Bwrdd Partneriaeth Amgylchedd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gyda chylch gorchwyl eglur ar gyfer cydlynu ymateb cydweithredol i'r argyfwng natur a hinsawdd ar lefel leol

- Datblygu asesiadau risg newid hinsawdd ac asedau naturiol ar gyfer a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn deall y risgiau allweddol i wella dygnwch hinsawdd
- Ymgymryd â mwy o gyhoeddusrwydd ac ymgysylltu gyda'r cyhoedd er mwyn cynyddu gwelededd camau weithredu amgylcheddol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'n gwahodd eraill i gydweithio er mwyn ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur yn Sir Fynwy.

Roedd ail-sefydlu'r Bwrdd Partneriaeth Amgylchedd Lleol wedi argymell darparu llywodraethiant ac atebolrwydd ar gyfer datblygu'r camau gweithredu er mwyn ymateb i'r argyfwng natur a hinsawdd. Mae'r Bwrdd wedi sefydlu grŵp craidd, sydd yn meddu ar y cylch gorchwyl i weithredu'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, gan ddwyn pobl ynghyd o'r mudiadau partner ar gyfer cydweithio ac uwchgyfeirio cynigion sydd angen eu cytuno. Mae'r gwaith hwn yn parhau yn y sir gyda chyfraniad ehangach y partneriaid yn cael ei ystyried er mwyn sicrhau bod pawb yn cydweithio.

At hyn mae partneriaid Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy wedi parhau i gydweithio ar ôl-troed rhanbarthol drwy'r rhaglenni Climate Ready Gwent a grid Gwyrdd Gwent Greed. Mae'r rhwydwaith Climate Ready Gwent, a gychwynnwyd drwy Grŵp Gweithredu Lles Strategol Gwent (GSWAG) a'i arwain gan Gyfoeth Naturiol Cymru, yn parhau i hwyluso newid ar raddfa ranbarthol. Drwy weithio gyda'n gilydd, mae'r rhwydwaith amrywiol hwn yn ceisio cyflymu'r gweithgareddau sector cyhoeddus o ran datgarboneiddio ac addasu i newid hinsawdd, rhoi'r ffyrdd i bobl a lleoedd i oresgyn yr heriau sydd o'n blaenau. Drwy flaenoriaethu Gweithredu Hinsawdd yn y ffordd hon, mae cyrff cyhoeddus yng Ngwent wedi dewis mynd i'r afael gyda'r her hon mewn ffordd sydd yn cyfrannu at sawl amcan llesiant, yn ceisio sicrhau nad yw anghenion cenedlaethau'r dyfodol yn cael eu heffeithio gan weithredoedd – neu ddiffyg gweithredu – heddiw.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae yna fwy o ddealltwriaeth o'r risgiau a'r cyfleoedd newid hinsawdd a'r angen i leihau allyriadau nwy tŷ gwydr. Roedd hyfforddiant Llythrennedd Carbon yn benodol ar gyfer Gwent wedi ei ddatblygu a'i gyflwyno ar draws mudiadau sector cyhoeddus Gwent gan gynnwys prif weithredwyr ac aelodau etholedig a oedd wedi derbyn hyfforddiant. At hyn, roedd yr hyfforddiant wedi ei ehangu i gynnwys elfen o "hyfforddi'r hyfforddwr" yn 21/22. Roedd hyfforddiant Llythrennedd Carbon wedi cynyddu capasiti mudiadau drwy gyfrwng unigolion sydd wedi eu hyfforddi i sicrhau eu bod yn meddu ar y teclynnau, sgiliau a'r canllawiau sydd angen er mwyn eu caniatáu i addasu eu practis personol a phroffesiynol i effeithiau newid hinsawdd a lleihau allyriadau nwy tŷ gwydr ar draws Gwent.

Mae Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwent yn brosiect tair blynedd sydd yn weithredol o Fawrth 2020 i Fawrth 2023. Mae'r bartneriaeth yn cynnwys y pum Awdurdod Lleol yng Ngwent (Sir Fynwy, Blaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd a Thorfaen), a Chyfoeth Naturiol Cymru, Forest Research a Severn Wye Energy Agency. Mae'r bartneriaeth yn sicrhau bod ymrwymiad Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent i weithredu'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r Ddeddf Amgylchedd (Cymru) yn dod yn fyw drwy gydweithio gyda phartneriaid, cynnwys dinasyddion lleol a'n cyflenwi ar draws y saith amcan lles. Mae hyn yn fecanwaith ar gyfer cyflenwi Datganiad Ardal De-ddwyrain Cymru gan weithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru.

Mae Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwent yn ceisio gwella seilwaith gwyrdd yn ardal Gwent, drwy ddarparu buddion go iawn i gymunedau lleol. Mae seilwaith Gwyrdd yn meddu ar rôl hanfodol wrth fynd i'r afael gyda'r argyfyngau natur, hinsawdd ac iechyd. Mae 5 ffynhonnell waith allweddol gan y Bartneriaeth hon ac mae Sir Fynwy yn bartner allweddol yn y rhain, sef:

- Ffynhonnell 1: Strategaeth a Phartneriaeth GI Rhanbarthol
- Ffynhonnell 2: Coridorau Gwyrdd Gwent
- Ffynhonnell 3: Gwent i-Tree Eco Study Pilot Areas

- Ffynhonnell 4: Prosiectau GI Gwent
- Ffynhonnell 5: Polisi Pryfed Peillio Gwent

Yn ogystal â'r ffynhonnell waith ar hinsawdd, mae'r dull yma o weithio yn ceisio sicrhau bod polisi dylunio a chynllunio yn cefnogi cymunedau cryf, hyfyw ac iach sydd yn dda i bobl a'r amgylchedd yn rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig sydd yn meddu ar dair amcan: sef mynd i'r afael gyda newid hinsawdd, darparu tai fforddiadwy sydd wir eu hangen a cheisio cadw a denu pobl ifanc er mwyn ail-daro cydbwysedd o ran y ddemograffeg sydd yn heneiddio. Mae'r olaf yn bwysig er mwyn sicrhau bod ein cymunedau yn gynaliadwy, a hynny'n gymdeithasol a'n economaidd.

Mae creu lleoedd a seilwaith gwyrdd ar flaen y broses o wneud penderfyniadau yn unol gyda Pholisi Cynllunio Cymru (rhifyn 11) (PPW). Mae swyddogion wedi datblygu strwythur adroddiad sydd yn seiliedig ar y polisi yma ac yn ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae polisi fframwaith y CDLlD yn ffocysu ar ddarparu cartrefi cynaliadwy, fforddiadwy a swyddi tra hefyd yn ystyried yr her newid hinsawdd. Roedd y Strategaeth a Ffefrir yn rhan o ymgynghoriad cyhoeddus yng Ngorffennaf ac Awst 2021 ac mae'n cael ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn gyson gydag amcanion polisi'r Weinyddiaeth, ac ystyried llythyr gwrthwynebiad Llywodraeth Cymru a goblygiadau hyn o ran canlyniadau'r Cynllun ac ymateb i'r her o ffosffadau ac ansawdd dŵr sydd yn effeithio ar ddalgylchoedd Afon Gwy a'r Wysg. Mae llythyr gwrthwynebiad Llywodraeth Cymru yn nodi'r pryderon gyda Dyfodol Cymru 2040 a fynegwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus., sef yn benodol y diffyg uchelgais polisi ar gyfer rhanbarth De-Ddwyrain Cymru. Mae yna drafodaeth barhaus gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar sut y bydd y CDLlD yn effeithio ar seilwaith iechyd er mwyn sicrhau bod y cynigion datblygu yn gynaliadwy. Bydd yna Gynllun Seilwaith yn cael ei ddatblygu gyda'r CDLlD.

Mae'r Cyngor yn datblygu canllaw cynllunio atodol Adran 106 a fydd yn sicrhau bod y seilwaith cywir mewn lle ar gyfer cynigion datblygu. Mabwysiadwyd y Strategaeth Seilwaith Gwyrdd yn Rhagfyr 2019 a chyhoeddwyd Datganiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru ym Mawrth 2020.

Mae yna waith yn cael ei wneud er mwyn adnabod unrhyw ofynion o ran tir cyflogaeth sydd yn gyson gydag uchelgais economaidd y Cyngor er mwyn sicrhau bod y tir cywir gennym yn y llefydd cywir er mwn creu swyddi, Mae gwaith wedi ei gwblhau ar yr astudiaeth Tirwedd a dal yn cael ei wneud ar strategaeth ynni adnewyddadwy. Mae gwaith tystiolaeth ar adolygiad lletem las wedi dechrau ar lefel is-rhanbarthol ac rydym wedi dechrau ar Gynllun Trafnidiaeth Lleol diwygiedig. Mae llwybrau blaenoriaeth o ran Teithio Llesol wedi eu nodi yn dilyn ymgynghoriad ac mae grant sylweddol wedi ei sicrhau gan Lywodraeth Cymru er mwyn dylunio a darparu'r llwybrau yma, gyda llwybrau at ysgolion a mannau gweithio yn flaenoriaeth. Mae'r Mapiau Rhwydwaith yn ystyried yr opsiynau strategol ar gyfer twf yn y CDLlD.

O ran Teithio Llesol, mae hyn yn cyfeirio at wneud teithiau pwrpasol byr drwy gerdded, seiclo neu 'wheeling' yn hytrach na gyrru. Yn Sir Fynwy, rydym wedi alinio ein ffocws strategol er mwyn canolbwyntio ar deithiau i addysg, swyddi, manwerthu, iechyd a gorsafoedd bysiau / rheilffordd.

Dros y 2 flynedd ddiwethaf, mae yna gynnydd sylweddol wedi ei wneud ar Deithio Llesol o fewn Sir Fynwy, gyda grant gan Lywodraeth Cymru yn cynyddu o £465k ym 19/20, £1.8m ym 20/21, £3m ym 21/22 a dyfarniad cychwynnol o £3.9m wedi ei sicrhau ar gyfer 22/23. Mae'r tîm Teithio Llesol penodol wedi dyblu mewn maint, gyda Swyddog Cymorth Prosiect yn ymuno gyda'r tîm, gan wneud mwy o waith yn darparu a'n cysoni hyn gyda'n huchelgais yn y maes allweddol hwn o waith.

Fel rhan o'r grant sydd wedi ei sicrhau yn ystod 21/22, mae'r effaith ddiweddar wedi cynnwys:

- Cwblhawyd ymgynghoriad statudol mawr ar lwybrau Teithio Llesol ar draws y sir ac arweiniodd hyn at greu'r Mapiau Rhwydwaith Teithio Lleol (ATNM). Mae'r ymgynghoriad hwn, a oedd wedi cynnwys sawl rhan, wedi adnabod bron i 400 o lwybrau sydd naill ai yn cwrdd â safonau cenedlaethol (100) neu sydd wedi eu blaenoriaethu ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol.
- Mae dwy ran o waith seilwaith wedi eu cwblhau ar Williams Field Lane, Trefynwy er mwyn hwyluso Teithio Llesol. Mae'r llwybr yma, sy'n 3m o led, yn mynd heibio Ysgol Gynradd Overmonnow sydd wedi elwa o seilwaith parcio beiciau gwella drwy gyfrwng yr arian Teithio Llesol.
- O fewn Cil-y-coed, mae Heol yr Eglwys a The Cross wedi elwa o welliannau mewn seilwaith er mwyn hwyluso teithio lleso.
- Yn y Fenni, mae yna lôn seiclo wedi ei gosod yn Stryd y Llew er mwyn gwneud pethau'n fwy hawdd i seiclwyr.
- Seilwaith gwell mewn ysgolion a chanol trefi er mwyn gwella'r cyfleusterau sydd ar ddechrau a diwedd y llwybrau Teithio Llesol. Mae 15 ysgol wedi elwa o seilwaith a chapasiti ar gyfer 163 o feiciau ychwanegol ar draws canol ein trefi, gyda 12 pwmp beic cyhoeddus wedi eu gosod.
- Mae yna welliant wedi ei wneud i'r negeseuon ynglŷn â gwella teithio llesol a newid y dull teithio, a hynny drwy gyfrwng gwefan newydd ar gyfer Teithio Lles, mapiau o'r setliadau a negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol.

Gyda'r cyllid sydd wedi ei sicrhau yn ystod 22/23, rydym yn bwriadu:

- Adeiladu Rhan 1 o Gysylltiadau Cil-y-coed a rhan 2 o Heol yr Eglwys, Cil-y-coed eleni, gan wella'r rhwydwaith.
- Datblygu'r cynlluniau strategol eraill sydd ar waith yn y Fenni, Cil-y-coed a Threfynwy yn unol gyda'r proses WelTAG, fel eu bod yn barod ar gyfer eu hadeiladu yn y blynyddoedd nesaf (yn amodol ar gyllid).
- Darparu adborth i geisiadau cynllunio sylweddol, er mwyn sicrhau bod Teithio Llesol yn rhan o'r Cynlluniau yma.
- Datblygu mwy o wybodaeth ar gyfer y cyhoedd er mwyn cefnogi ymwybyddiaeth ymhlith aelodau, cydweithwyr a'r cyhoedd.
- Gwella sawl llwybr ATNM ar gyfer y dyfodol er mwyn cwrdd â safonau cenedlaethol drwy gyfrwng cyfres o brosiectau sydd yn mynd i sicrhau gwelliannau cyflym
- Diddymu unrhyw rwystrau at lwybrau Teithio Llesol fel clwydi, camfeydd, bolardiau, gan sicrhau eu bod yn hygyrch i bawb.

Mae gwaith ychwanegol, a arweiniwyd gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru, wedi cynnwys gweithio gyda phartneriaid ehangach y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac wedi parhau i weithio gyda phobl ifanc ar fentrau a rhaglenni sydd yn eu caniatáu i fod yn ddinasyddion cyfrifol byd-eang yn y dyfodol. Mae'r rhaglenni yma wedi parhau i ystyried ehangu'r ffynhonnell waith drwy ei chysoni gyda'r camau eraill o dan yr amcan 'rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bobl ifanc'. Mae rhai o'r rhaglenni sydd wedi eu darparu gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru fel a ganlyn:

Anerchiadau mewn Ysgolion

Mae Timau Diogelwch Cymunedol a Chriwiau Gweithredol wedi ymweld gydag ysgolion er mwyn cynnal gwasanaethau gan weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill fel yr Heddlu. Mae hyn yn cynnwys gweithio ar danau glaswellt ac 'Operation Bang' (Tân gwyllt), ac mae hyn yn ceisio delio gyda sut mae pobl yn ystyried ac yn parchu'r amgylchedd a'n defnyddio gofodau agored yn ddiogel a'n barchus.

Prosiect Phoenix
Rhaglen ymyrraeth i ieuenctid dros 5 diwrnod gan ddefnyddio gweithgareddau sy'n ymwneud gyda'r gwasanaeth tân a'n ceisio mynd i'r afael gyda phroblemau sy'n wynebu pobl ifanc (rhwng 11 a 25) sydd yn amrywio o ymdeimlad isel o hunanwerth a diffyg hyder i ymddygiad gwrthgymdeithasol ac i faterion yn ymwneud gyda thân - yn gweithio ag Unedau Atgyfeirio Disgyblion, y Gwasanaeth Prawf a Darparwyr Addysg Amgen. Mae pobl ifanc yn medru ennill cymhwyster Agored. Mae'r gwaith hwn eto yn ceisio hyrwyddo ymddygiad positif mewn pobl ifanc, yn enwedig o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddau'n ymwneud gyda thân a difrod cymdeithasol o fewn cymunedau; mae'n ffocysu ar adeiladu hyder a helpu pobl ifanc i ddeall yr hyn y mae'r gwasanaeth tân yn gwneud a sut y maent yn ymgysylltu gyda'r gymuned ehangach ac yn cadw pobl yn ddiogel a'n dda.

Phrosiect Troseddau a Chanlyniadau
Diffoddwr Tân am Ddiwrnod neu weithdai unigol am awr at gyfer darparu addysg sydd yn ceisio lleihau'r tebygolrwydd y mae pobl ifanc yn ei brofi wrth gymryd rhan mewn dechrau tanau'n fwriadol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol neu ymddygiad sydd yn tramgwyddo. Yn gweithi gyda'r Unedau Atgyfeirio Disgyblion, y Gwasanaeth Prawf a Darparwyr Addysg Amgen. Wedi ei oedi am y tro ond yn dechrau yn y misoedd nesaf.

Cynllun Cadét Tân
Ffocws y Cadetiaid Tân yw gwella sgiliau dinasyddiaeth allweddol ac adeiladu hyder tra'n datblygu sgiliau trosglwyddadwy, ymarferol ar gyfer hyfforddiant neu gyflogaeth yn y dyfodol. Mae hon yn rhaglen 2 flynedd lle y mae cadetiaid yn medru ennill cymhwyster BTEC Lefel 2 mewn Gwasanaethau Tân ac Achub yn y Gymuned. Mae'r Cadetiaid yn medru gwneud cais i aros am 3ydd blwyddyn fel rhan o'n Rhaglen Llysgenhadon Cadetiaid Tân ac mae proses ddethol llawn ar gyfer hyn. Mae'r cynllun yn annog gwneud defnydd o'r amgylchedd naturiol gyda gwersylla a digwyddiadau eraill yn cael eu cynnal yn yr awyr agored, yn caniatáu pobl ifanc i ymdrochi yn yr amgylchedd naturiol drwy gyfrwng gweithgareddau, cystadlaethau, digwyddiadau a theithiau undydd.

Cynllun Ymyrraeth Lleoliadau Tân
Mae'r prosiect yn cynnig gwasanaethau tân i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd ac unrhyw asiantaeth sydd angen eu cynnwys os oes yna bryder am blentyn neu berson ifanc sydd yn hoffi dechrau tân. Mae yna 3 lefel o ymyrraeth: Ymweliad â'r Cartref; y Rhaglen Ddiogel; Rhaglen Tân Diogel. Mae hyn wedi ei atal ar hyn o bryd ond yn mynd i ddechrau yn ystod y misoedd nesaf.

Mae gwaith eraill a wneir gan bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n ffocysu ar ddinasyddiaeth byd-eang yn ystod 2021/22 yn cynnwys:

- Cefnogi ysgolion i ddysgu mwy am Fasnachu Teg yn ystod Pythefnos Masnachu Deg
- Gweithio gyda phartneriaid er mwyn helpu codi ymwybyddiaeth ymhlith pobl ifanc am gynnyrch misglwyf cynaliadwy a llygredd misglwyf plastig
- Mae gweithdai yn cael eu cynnal ar gyfer pobl ifanc drwy '*Sustainable You, Sustainable Me*', ac mae cynnyrch cynaliadwy ac ail-ddefnyddio yn cael eu dosbarthu

# Amcan Llesiant 4 – Datblygu cyfleoedd i gymunedau a busnesau i fod yn rhan o sir sydd yn ffynnu'n economaidd ac wedi ei chysylltu'n dda.

## Yr amcanion llesiant y mae hyn yn cyfrannu atynt

| Cymru Ffyniannus (1) | Cymru Gydnerth (2) | Cymru Iachach (3) | Cymru mwy cydradd (4) | Cymru o gymunedau cydlynus (5) | Diwylliant bywiog lle y mae'r Gymraeg yn ffynnu (6) | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang (7) |
|---|---|---|---|---|---|---|

Er mwyn cyfrannu at Gymru Ffyniannus, mae angen gwneud cysylltiadau rhwng addysg a busnesau er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn meddu ar y sgiliau sydd yn briodol ar gyfer swyddi'r dyfodol. Bydd y Fargen Ddinesig yn cyfrannu'n allweddol at Gymru Ffyniannus, ond bydd hefyd yn allweddol wrth i ni adeiladu ar gryfderau ein heconomi leol, treftadaeth a diwylliant, er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfraniad y maent yn gwneud i'r economi. Bydd seilwaith trafnidiaeth gynaliadwy yn allweddol er mwyn sicrhau bod pawb yn medru cael mynediad at swyddi a hyfforddiant, ynghyd â'n lleihau allyriadau carbon.

## Cyflenwi'r Datrysiad

Mae natur datblygiad economaidd yn golygu bod y darlun yn newid yn gyflym iawn ac mae angen i wasanaethau cyhoeddus i fedru addasu ac ymateb i'r tirwedd yma sy'n newid. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn adolygu'r camau sydd angen eu cymryd o dan yr amcan yma yn sgil y dystiolaeth ddiweddaraf o ran llesiant economaidd yn y sir a'r datblygiad economaidd sydd yn digwydd yn lleol, yn rhanbarthol a'n genedlaethol. Mae unrhyw newidiadau wedyn i'r camau y bydd y Bwrdd yn ffocysu arnynt o dan yr amcan yn cael eu gwneud yng nghynllun llesiant y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

| Bydd y BGC yn ffocysu ar: | Cysylltiad ag Amcanion | Amcanion | Effaith |
|---|---|---|---|
| **Manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a ddaw i Sir Fynwy yn sgil y Fargen Ddinesig** | | **1, 4, 5** | **Tymor Canolig** |
| **Dealltwriaeth well o ddyfodol byd gwaith a'n sicrhau'r cysylltiad gyda hyfforddiant ac addysg a busnesau fel ein bod yn adnabod y sgiliau sydd angen yng ngweithlu Sir Fynwy nawr ac yn y dyfodol** | | **1** | **Tymor Canolig** |
| **Datblygu technoleg newydd ar gyfer gwella trafnidiaeth wledig** | | **1, 4, 5, 7** | **Tymor Canolig** |
| **Hwyluso rhwydweithio gwell rhwng busnesau er mwyn rhannu gwybodaeth a** | | **1** | **Tymor Byr** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **mynediad at dechnoleg a chyfleoedd rhanbarthol er mwyn caniatáu busnesau i dyfu** | | | |
| **Ystyried y potensial ar gyfer canolfannau ardderchowgrwydd arbenigol yn Sir Fynwy e.e. bwyd/lletygarwch, amaethyddiaeth twristiaeth a thechnoleg** | | **1, 2, 6** | **Tymor Canolig** |

**Crynodeb o'r Cynnydd – Camau Wedi Eu Cyfuno:**

Mae Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi symleiddio ei lywodraethiant er mwyn medru helpu cyflenwi blaenoriaethau allweddol yn y rhanbarth sydd yn ymwneud gyda sgiliau, trafnidiaeth, datblygu strategol, cynllunio a thwf busnes.

Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo Cynllun Pum Mlynedd Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd sydd wedi ei gymeradwyo'n ffurfiol gan bob un o'r 10 partner awdurdod lleol.

Mae Cabinet Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi amlinellu ei Gynllun Diwydiannol ac Economaidd, Fframwaith Buddsoddi gyda thair blaenoriaeth buddsoddi sydd yn ffocysu ar seilwaith, arloesi a heriau.

Yn dilyn Pandemig COVID-19, roedd Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi diweddaru'r Cynllun Twf Diwydiannol ac Economaidd Rhanbarthol er mwyn newid y ddeg blaenoriaeth i mewn i atodiad eglur sydd yn amlinellu'r ffordd y mae Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn medru gweithredu er mwyn lliniaru rhai o'r effeithiau gwaethaf ar yr economi a busnesau yn y rhanbarth o ganlyniad i'r argyfwng a'i effaith barhaus.

Mae'r gwaith i gyflawni'r amcan yma*, sef dyfodol gwaith a'n sicrhau bod hyfforddiant ac addysg yn cysylltu gyda busnesau er mwyn adnabod y sgiliau sydd angen ar weithlu Sir Fynwy nawr ac yn y dyfodol* yn cynnwys:

- Datblygu cronfa ddata o gyflogwyr er mwyn cefnogi digwyddiadau mentergarwch a'n creu cyfleoedd i fynd ar brofiad gwaith a chael swyddi.
- Gwella'r cysylltiadau gyda phartneriaethau mentergarwch busnes cyfredol, darparwyr hyfforddiant a chyflogwyr er mwyn creu cyfleoedd newydd ar gyfer hyfforddiant a chyflogaeth
- Gwella'r ymgysylltu rhwng pobl ifanc, oedolion a busnesau lleol er mwyn medru creu llwybrau gyrfaol a chyfleoedd i weithio'n lleol
- Gweithredu dull cydlynus o weithio wrth ddarparu profiad gwaith ar draws yr awdurdod lleol
- Cymeradwyo Strategaeth Prentisiaethau, Interniaeth a Graddedigion er mwyn datblygu cyfleoedd o ran hyfforddi, prentisiaethau ac interniaeth sydd yn diwallu anghenion lleol
- Rhaglen 'Communities for Work Plus'; - mae'r rhaglen hon yn ceisio lleihau'r nifer sydd yn profi neu mewn risg o brofi tlodi, gwella cyflogadwyedd, lefel sgiliau a hyfforddiant ymhlith y sawl sy'n cymryd rhan a'n darparu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth sydd yn talu mwy o gyflog/lleihau tlodi tra'n gweithio.
- Cymeradwyo Rhaglen Prentisiaeth Gofal Economi Sylfaenol.

At hyn, mae Cyngor Sir Fynwy wedi bod yn cynnal cyfarfodydd cyson gyda chydweithwyr Adfywio Llywodraeth Cymru er mwyn trafod y camau nesaf ar gyfer datblygu canol trefi a fydd yn cefnogi rhwydweithio busnes gwell.

Datblygwyd llwyfan trafnidiaeth ddigidol gyda chyllid gan raglen GovTech Catalyst Llywodraeth y DU. Roedd hon yn gronfa her er mwyn annog cwmnïau preifat i ddatrys rhai o'r problemau mwyaf sydd yn wynebu gwasanaethau cyhoeddus. Mewn ardaloedd gwledig, mae diffyg trafnidiaeth, sydd yn cyfyngu ar gyfleoedd i sicrhau swyddi a mynediad at weithgareddau cymdeithasol, yn un o'r heriau yma a'r syniad oedd datrysiadau y mae modd eu profi yn Sir Fynwy cyn eu cyflwyno lleoedd eraill yn y DU

Datblygwyd y modiwl trafnidiaeth Thrive gan Transport Design International (a adnabuwyd gynt fel Box Clever Digital). Roedd Thrive wedi dwyn ynghyd yr holl wybodaeth am deithio lleol ar un porth. Roedd hyn wedi caniatáu darparu gwybodaeth o gynllunydd teithio Google a defnyddio hyn fel cyfrwng hefyd i gyflwyno cynlluniau teithio sydd wedi eu cefnogi'n lleol. Roedd Thrive Transport Information wedi medru manteisio ar bŵer gwybodaeth teithio sydd ar y we ac integreiddio hyn i mewn i un porth gan ddefnyddio ffurfiau eraill o drafnidiaeth hefyd.

Crëwyd Thrive er mwyn medru pweru cynlluniau trafnidiaeth yn y gymuned a lleihau'r baich sydd fel arfer yn rhan o ddarparu hyn. Roedd rhai o'r nodweddion allweddol fel a ganlyn:

- Mae teithwyr yn medru chwilio am gynlluniau lleol
- Cynllunio teithiau cymhleth er mwyn cefnogi teithwyr ychwanegol a stopio mewn sawl man
- Cofrestru awtomatig o'r gyrwyr sydd a chymeradwyo a dilysu dogfennaeth gyfreithiol
- Adnabod a hysbysu gyrwyr yn awtomatig
- Dangos i yrwyr y ffordd orau i'w defnyddio
- Cyfrif unrhyw ffioedd yn gywrain

Mae'r llwyfan Thrive yn medru cefnogi teithio sydd yn ddibynnol ar alw ynghyd a gwasanaethau sydd eisoes wedi eu cynllunio ac yn medru cefnogi'r gwaith o gyfuno teithiau er mwyn cynyddu cynaliadwyedd a lleihau'r angen am gymhorthdal. Bydd y nodweddion hyn yn gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd swyddogion trafnidiaeth lleol gan ganiatáu bod unigolion yn medru gwneud defnydd gwell o'r gwasanaethau.

Mae trafferthion gyda datblygwyr meddalwedd tramor wedi effeithio ar y cynnydd a wneir o ran cyflwyno'r broses gydag ychydig o brofion wedi eu cynnal hyd yma. Mae yna addewid pellach wedi ei wneud gan y cwmni datblygu, TDI, a Chyngor Sir Fynwy er mwyn sicrhau bod systemau yn medru cael eu profi'n llawn a'u cyflwyno mewn modd sydd yn caniatáu bod unrhyw adborth parhaus yn medru arwain at welliannau.

Roedd y Cynllun Gweithredu Datblygu Bwyd wedi ei gymeradwyo gan y Cabinet ym Mawrth 2021. Roedd y Cynllun Gweithredu yn ffurfio rhan o gyfres o ddogfennau sydd yn cefnogi'r trydydd cam o ddiwygio'r Strategaeth Cyfiawnder Cymdeithasol, ac roedd dogfennau eraill yn cynnwys y Cynllun Gweithredu Mynd i'r Afael gyda Thlodi a'r Cynllun Pontio Digartrefedd.

Mae Partneriaeth Bwyd Cynaliadwy Sir Fynwy wedi ei sefydlu gyda Chydlynydd Partneriaeth Bwyd Cynaliadwy wedi ei apwyntio er mwyn gweithio gyda phartneriaid er mwyn gyrru ymlaen yr agenda bwyd cynaliadwy gan gynnwys datblygu Strategaeth Bwyd Cynaliadwy ar gyfer y Sir.

Mae'r potensial ar gyfer partneriaeth gyda Chanolfan Agri-tech Prifysgol Hartpury yn cael ei wyntyllu er mwyn helpu busnesau ffermio i fabwysiadu datrysiadau technoleg digidol penodol ac adeiladu ar y clwstwr o arferion ffermio arloesol sydd â'r potensial i dyfu'n sylweddol.

# Craffu'r Amcanion Llesiant

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dibynnu ar rôl graffu'r llywodraeth leol er mwyn sicrhau gwelliant parhaus. Yn Sir Fynwy, mae Pwyllgor Dethol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi ymgymryd â'r rôl hon.

Mae'r Pwyllgor wedi ehangu ei gylch gorchwyl er mwyn ffocysu ar gydlafurio gan gynnwys, ond nid wedi ei gyfyngu, i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae hyn yn golygu y bydd yn craffu a'n herio'n adeiladol, a lle y mae pwerau yn caniatáu hyn, yn ystyried gwaith ac effeithiolrwydd y partneriaethau strategol (gan gynnwys y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus) a darparwyr gwasanaethau eraill er mwyn sicrhau bod gwasanaethau sy'n cydweithio dal yn atebol i'r cyhoedd a'n sicrhau gwelliannau i bobl yn Sir Fynwy.

Yn ystod 2021/22, mae'r gwaith y mae'r Pwyllgor wedi craffu wedi cynnwys:

- Y cynigion a ddatblygwyd er mwyn symud at Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Gwent a'r broses ar gyfer datblygu'r Asesiad Llesiant a'r Cynllun Llesiant.
- Y cynnydd sydd wedi ei wneud tuag at gyflawni amcanion llesiant y Bwrdd yn ystod 2020-21, gan gynnwys y gweithgarwch partneriaeth drwy'r pandemig Coronafeirws yn adroddiad blynyddol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Asesu anghenion gofal a chymorth poblogaeth Gwent ac i ba raddau y mae'r anghenion yma yn adlewyrchu Sir Fynwy yn Asesiad Anghenion Poblogaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent.
- Asesiad llesiant yng Ngwent, Sir Fynwy a'r pum awdurdod lleol o fewn Sir Fynwy a'n darparu adroddiad fel rhan o'r broses ymgynghori.

Mae adroddiadau a chopïau o'r cofnodion o'r Pwyllgor Dethol i'w gweld yma https://www.monmouthshire.gov.uk/home/democracy-councillors/

# Cynghorau Cymuned a Thref – diweddariad

Mae Tîm Partneriaeth Strategol Cyngor Sir Fynwy wedi parhau i weithio'n agos gyda'r Cynghorau Cymuned a Thref dros y flwyddyn ddiwethaf. Wrth i'r gwasanaethau gael eu darparu unwaith eto ar ôl y pandemig, mae'r Cynghorau Cymuned a Thref wedi parhau i ymateb i anghenion o fewn eu cymunedau. Mae'r tabl isod yn darparu rhai esiamplau o'r gwaith sydd wedi ei wneud gan ein Cynghorau Cymuned a Thref dros y 12 mis diwethaf; gan ddangos sut y maent yn parhau i gydweithio ac ar gyflymder wrth ymateb i'r heriau o fewn eu cymunedau. Mae'n werth nodi nad rhestr gynhwysfawr yw hon ond dyma 'giplun' o'r gwaith ardderchog sydd wedi ei wneud gan ein partneriaid sifig.

| **Darparu'r dechrau gorau posib mewn bywyd i blant a phobl ifanc** | |
|---|---|
| Cyngor Tref y Fenni | • Darparu cymorth emosiynol ychwanegol i bobl ifanc. Cefnogaeth barhaus at brosiect SHIFT Cyngor Sir Fynwy er mwyn cynyddu'r nifer o oriau sydd ar gael yn y Fenni i gefnogi pobl ifanc sydd yn profi materion lles emosiynol.<br>• Cefnogaeth barhaus at brosiect SHIFT Cyngor Sir Fynwy er mwyn cynyddu'r nifer o oriau sydd ar gael yn y Fenni er mwyn cefnog pobl ifanc sydd yn profi problemau lles emosiynol - yn cefnogi cynllun chwarae haf Cyngor Sir Fynwy gan roi arian cyfatebol er mwyn prynu Caban Ieuenctid newydd yn 2021<br>• Darparu gweithgareddau haf ar gyfer y sawl o dan 11 mlwydd oed – parhau i gyfrannu £12,000 tuag at y cynllun chwarae dros yr haf yn y Fenni.<br>• Gwella'r cyfleusterau ar gyfer gweithgarwch awyr agored – wedi ail-osod y man chwarae ym Mharc Bailey. |
| Cyngor Tref Cil-y-coed | • Awdurdod wedi apwyntio cynrychiolwyr ar fyrddau llywodraethu'r ysgol.<br>• Cymorth ariannol a chyflwyno gwobrau yn Her Ddarllen yr Haf.<br>• Gweithio ag ysgolion a'r Hybiau Cymunedol.<br>• Cymorth ariannol i gynlluniau chwarae a gwasanaethau ieuenctid yng Nghil-y-coed.<br>• Rheoli maes chwarae a darparu cyfarpar chwarae.<br>• Ymroddiad parhaus er mwyn sicrhau bod yna gynrychiolwyr Cyngor Tref ar gyrff llywodraethu.<br>• Datblygu'r prosiect MUGA (Multi Use Games Area) er mwyn ehangu'r ddarpariaeth chwarae yn y dref |
| Cyngor Tref Cas-gwent | • Darparu gweithgareddau haf i'r sawl rhwng 5 a 11 mlwydd oed. Yn ariannu cymorth gwerth £20,000 ar gyfer darparu cynllun chwarae mynediad agored sydd yn cael ei gynnig gan Gyngor Sir Fynwy.<br>• Mynd i'r afael gyda phryderon am blant sy'n llwgu dros y gwyliau. Mae hyn yn rhan o sgwrs barhaus gyda Chyngor Sir Fynwy er mwyn dod o hyd i ffordd i gynnig cefnogaeth yn y maes hwn. |

| | |
|---|---|
| | • Cefnogi teuluoedd sydd â'u teuluoedd wedi eu heffeithio gan y Pandemig Covid 19. Mae'r Cyngor Tref yn parhau i gefnogi ysgolion yn y maes hwn gyda £5k i Gymdeithas Rhieni Athrawon Clwstwr Ysgolion er mwyn dechrau banc iwnifform, £1,538 i Basecamp sydd wedi creu Gardd Gofod Diogel sydd i'w defnyddio fel gofod therapiwtig drwy gydol y flwyddyn, Ysgol y Santes Fair ar gyfer prynu pebyll er mwyn ehangu'r mannau awyr agored gan sicrhau bod grwpiau cymunedol yn medru parhau i gynnig eu cymorth ac i Gyngor Sir Fynwy ar gyfer ymgyrch farchnata leol er mwyn cefnogi trigolion sydd yn profi caledi ariannol.<br>• Cynghorwyr fel Llywodraethwyr Ysgol - mae Cynghorwyr yn ymgymryd â'r rôl hon drwy roi eu hamser, sgiliau ac arbenigedd mewn capasiti gwirfoddol er mwyn eu helpu eu hysgolion i ddarparu plant gyda'r addysg orau bosib.<br>• Digwyddiadau Cymunedol – Yn cefnogi digwyddiadau cymunedol ac yn annog y gwaith o ymgysylltu gyda phobl ifanc.<br>• Canolfan Ieuenctid - Cyllid er mwyn talu am gostau a hurio'r lleoliad a'r cyfarpar. |
| Cyngor Tref Trefynwy | • Darparu gweithgareddau i'r sawl rhwng 5 a 11 mlwydd oed yn ystod gwyliau ysgol – mae Cyngor Tref Trefynwy wedi ymrwymo £8000 i Gyngor Sir Fynwy er mwyn cefnogi'r digwyddiadau niferus a gynhaliwyd ar draws Trefynwy yn ystod gwyliau'r ysgol.<br>• Mynediad at ddigwyddiadau ac amwynderau lleol – mae Cyngor Tref Trefynwy, mewn partneriaeth gyda Theatr Savoy, wedi darparu ymweliadau misol am ddim i bob plentyn ysgol gynradd i ddod i wylio ffilm yn Theatr Savoy. At hyn, mae'r cytundeb partneriaeth gyda Gŵyl Trefynwy yn mynd i sicrhau bod modd dwyn plant lleol Trefynwy ynghyd. Mae'r Parêd Golau Nadolig wedi ei drefnu a'i ariannu gan Gyngor Tref Trefynwy yn caniatáu plant o ystyried a mynegi eu creadigrwydd drwy gyfrwng gweithdai yn gwneud llusernau.<br>• Cynghorwyr fel Llywodraethwyr Ysgol – mae'r 3 ysgol gynradd wladol a'r ysgolion Haberdashers wedi cael cynrychiolwyr o'r Cyngor ar eu cyrff llywodraethu, ac felly, mae'r Cyngor wedi bod yn ymwybodol o'r cynnydd a'r gefnogaeth sydd angen o bosib ar ysgolion.<br>• Cynnwys plant ysgol mewn grwpiau Cyngor – Mae Grŵp Sbwriel Cyngor Tref Trefynwy wedi bod yn gweithio'n agos gyda myfyrwyr yn Ysgol Gyfun Trefynwy er mwyn cefnogi eu hymgyrch yn erbyn sbwriel. Mae'r Cyngor wedi darparu cyllid i fyfyrwyr ar gyfer cynnig gwobrau fel rhan o'u cystadlaethau ynghyd ag argraffu sticeri yn cefnogi eu hymgyrch "Caru Trefynwy Casáu Sbwriel" a oedd wedi eu rhannu gyda busnesau ar hyd a lled Trefynwy. |

| Ymateb i'r heriau sydd yn ymwneud gyda newid demograffeg | |
|---|---|
| Cyngor Tref y Fenni | • Yn cefnogi mudiadau cymunedol sydd yn cynnig gweithgareddau ar gyfer pob un genhedlaeth a'n cynnig amgylchedd cefnogol a chroesawgar. Mae'r Cyngor Tref wedi adnewyddu ei gytundeb ariannu ag Ymddiriedolaeth Gymunedol y Fenni ac mae hyn yn cyfrannu at y costau staffio a chynnal sydd yn caniatáu'r ganolfan gymunedol i gynnal rhaglen gyfyngedig o weithgareddau gan gynnwys ciniawau a bore coffi.<br>• Mae Cyngor Tref y Fenni yn parhau i gefnogi Partneriaeth Mentergarwch Gymunedol y Fenni er mwyn cynnig cymorth a chyngor i drigolion, yn enwedig y sawl sydd yn byw yng Ngogledd y fennu a'n cynnig teithiau teulu a diwrnodau hwyl gyda chyllid gan y Cyngor Tref ar gyfer y sawl na sydd yn medru fforddio'r fath bethau.<br>• Yn gwella'r ddeialog gyda'r grwpiau sydd yn y dref - yn dwyn yr holl grwpiau amgylcheddol ynghyd ar gyfer trafodaethau cynnar ar gyfer darparu Abergavenny in Bloom, a nifer o'r gwirfoddolwyr sydd nawr yn cynorthwyo ar draws yr ardaloedd yma yn y dref.<br>• Roedd y Cyngor Tref yn 2021 wedi sefydlu cyfarfod Digwyddiadau ar-lein unwaith y mis er mwyn caniatáu trefnwyr digwyddiadau a busnesau lleol i rannu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth o'r digwyddiadau sydd yn cael eu cynnal unwaith eto yn dilyn Covid.<br>• Noddi Gŵyl Ysgrifennu'r Fenni – Denwyd cynulleidfa newydd ar hyn yn 2020 pan gynhaliwyd y digwyddiad ar-lein, ac yn 2021, roedd y Cyngor Tref wedi cefnogi'r trefnydd i greu gweithdy newydd ar gyfer pobl ifanc yng Nghanolfan Gelfyddydau Melville er mwyn dwyn awduron ynghyd i gefnogi pobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau ysgrifennu.<br>• Digwyddiadau gyda siaradwyr gwadd mewn lleoliadau amrywiol ar hyd a lled y dref gan gynnwys y llyfrgell a'r stiwdio celf a chrefft leol ac yn annog categorïau demograffeg gwahanol i ddod ynghyd a gwrando ar siaradwyr nad ydynt fel arfer yn cael y cyfle i ryngweithio gyda hwy. Roedd hyn wedi caniatáu i gynulleidfa ehangach i ddysgu mwy am ysgrifenwyr a'r gyrfaoedd sydd yn medru deillio o'r diwydiant ac roedd pobl o bob oedran wedi credu fod hon yn ŵyl ddefnyddiol a gwybodus. |
| Cyngor Tref Cil-y-coed | • Cynnal grwpiau cymorth er mwyn gwella a hyrwyddo iechyd a llesiant<br>• Gweithio mewn partneriaeth er mwyn helpu lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd<br>• Cefnogi digwyddiadau sydd yn gwella iechyd a llesiant<br>• Cymorth ariannol i MIND Sir Fynwy 2022/23 er mwyn sicrhau bod gwasanaeth cymorth yn cael ei ddarparu i drigolion Cil-y-coed<br>• Cymorth ariannol i Gyngor Ar Bopeth<br>• Gweithio gyda'r mudiadau partner, grwpiau cymorth yn cael defnyddio'r adeilad Cyngor Tref am ddim (cyngor, cymorth, atal unigrwydd ac arwahanrwydd)<br>• Gweithio mewn partneriaeth gyda mudiadau, AA, y Banc Bwyd, Bridges Centre, U3A |

| | |
|---|---|
| | • Prosiectau cymunedol, gosod meinciau ar hyd a lled y dref at ddefnydd y gymuned |
| Cyngor Tref Cas-gwent | • Yn sicrhau bod diffribilwyr  gan sicrhau bod gan gymunedau mynediad hawdd atynt ar draws y pum ward yng Nghas-gwent -  Diffribilwyr  i'w gosod yn Sgwâr  Beaufort. Pob uned wedi ei logio ar yr apiau a batris a phadiau yn cael eu gwirio'n gyson.<br>• Cefnogi Canolfan Gymunedol Drill Hall a Bulwark sydd yn cael eu gweld fel hybiau lleol fel gweithgareddau lle y mae pobl yn medru bod yn actif a'n cael eu cefnogi. Roedd y ddwy ganolfan wedi derbyn  £8,000 mewn cyllid yn 21/22 gydag aelodau yn cynrychioli'r Cyngor mewn cyfarfodydd.<br>• Darparwyd cefnogaeth ariannol i sawl mudiad sydd yn cefnogi pobl hŷn – rhoddwyd cyllid grant i'r Ganolfan Palmer er mwyn prynu offer ar gyfer y gegin er mwyn eu caniatáu i ddarparu'r gwasanaeth sydd wir ei angen ar gyfer y sawl a fyddai fel arall ar wahân, yn unig neu'n methu cwrdd â ffrindiau yn sgil y pandemig Covid-19.<br>• Y Ganolfan Gymunedol yn ail agor ar ôl  Covid – wedi parhau i ddarparu'r holl ganolfannau cymunedol gyda Chyfarpar Diogelwch personol – PPE – er mwyn eu caniatáu i weithio'n ddiogel.<br>• Cefnogaeth barhaus i Gyngor Ar Bopeth Cas-gwent – yn caniatáu trigolion o bob oedran i gael cyngor a chymorth am ddim ar ystod o faterion.<br>• Cynrychiolwyr ar bwyllgorau – yn cynrychioli'r Cyngor ar sawl pwyllgor allanol gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth Canolfan Palmert, Senior Citizens Welfare Trust, Siambr Fasnach a Thwristiaeth Cas-gwent, Camerâu Cylch Cyfyng Ansawdd Aery.<br>• Gweithio mewn partneriaeth gyda MIND Sir Fynwy - dechreuwyd y bartneriaeth ym Mai 2020 ar y cytundeb y byddent yn darparu sesiynau llesiant a dygnwch i unigolion sy'n oedolion a fydd yn cefnogi teuluoedd i ymdopi gyda heriau bywyd.<br>• Cynllun Lle Cyfan - Mae'r Cynllun Lle wedi rhoi'r cyfle  i bobl leol i weithio gyda'i gilydd a gyda'r Cyngor Tref er mwyn ystyried yr anghenion a'r dyheadau ar gyfer y dyfodol  ac mae sawl prosiect y mae'r Cyngor am ddatblygu wedi eu ffurfio. Bydd hyn hefyd yn caniatáu datblygu gwasanaethau, prosiectau a mentrau a fydd yn cwrdd â'r gofynion cyfredol ond hefyd yn atgyfnerthu a'n gwella'r sylfeini ar gyfer datblygiadau o fewn ein cymuned yn y dyfodol.<br>• Gweithio mewn partneriaeth gyda Chyngor Sir Fynwy – Mae'r Cyngor Tref wedi parhau yn ei drafodaethau gyda'r Cyngor ac wedi cefnogi'r ymdrech i sefydlu ymgyrch farchnata leol er mwyn cynorthwyo trigolion sydd yn profi caledi ariannol drwy eu hatgyfeirio i'r cymorth mwyaf priodol. |
| Cyngor Tref Trefynwy | • Yn cefnogi'r mudiadau cymunedol sydd yn cynnig gweithgareddau ar gyfer yr holl genedlaethau ac yn cynnig amgylchedd cefnogol a chroesawgar.  Drwy Gynllun Grantiau Cymunedol y Cyngor, mae nifer o elusennau a grwpiau lleol sydd yn cefnogi pob cenhedlaeth yn cael eu hariannu. Mae hyn weithiau ar gyfer y costau ynghlwm wrth gynnal prosiectau penodol sydd yn caniatáu grŵp i wella. At hyn, mae'r cymorth ariannol parhaus  i Mind Sir Fynwy fel rhan o gytundeb partneriaeth yn golygu bod grwpiau cymorth lleol a chwnsela hefyd a gweithwyr cymorth gwledig yn medru parhau yn Sir Fynwy. |

| | |
|---|---|
| | • Cyflenwi diffibrilwyr sydd ar gael i bawb. Mae'r Cyngor Tref yn parhau i ariannu a chynnal ddifibriliwr yn Sgwâr Agincourt sydd ar gael 24/7. |

| **Diogelu a gwella dygnwch ein hamgylchedd naturiol tra'n lliniaru a'n addasu effaith newid hinsawdd.** | |
|---|---|
| Cyngor Tref y Fenni | • Cynyddu'r defnydd o blanhigion sydd yn dda i bryfed peillio yng nghanol y dref. Mae'r Cyngor Tref yn parhau i annog y defnydd o rywogaethau cynefin drwy'r cynlluniau plannu ac mae trigolion nawr yn gwneud sylwadau ar hyn ac yn eu canmol.<br>• Yn cefnogi grwpiau o wirfoddolwyr sydd yn cyfrannu at gynnal a chadw parciau'r dref – mae'r Cyngor Tref wedi arwyddo cytundeb sawl blwyddyn gyda Ffrindiau Parc Bailey a Ffrindiau Castle Meadows er mwyn cefnogi'r prosiectau dros y tair blynedd nesaf.<br>• Yn creu cynefinoedd newydd drwy ail-blannu rhannau o'r dref lle y mae'r plannu yn druenus ar hyn o bryd ac yn cynnig ychydig iawn o werth o ran bioamrywiaeth. Mae'r cyntedd Coetir yn Castle Meadows wedi ei blannu'n llawn gyda chymorth gan blant o Ysgol Gynradd Gatholig Our Lady and St Michaels ym Mawrth 2021.<br>• Paratoi adroddiad yn amlinellu sut y mae'r Cyngor Tref yn cwrdd â'i oblygiadau o dan Adran 6 o Ddeddf Amgylchedd (Cymru) – Diwygio'r Strategaeth a Chynllun Gweithredu er mwyn ymgorffori camau i gynnal, gwella a hyrwyddo bioamrywiaeth i'w gynnal ym Medi 2022. Cytunwyd ar Bolisi Hinsawdd newydd yn gynnar yn 2021 a fydd yn cael ei lanlwytho i'r wefan unwaith y bydd wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg. Mae pob cytundeb partneriaeth nawr yn gorfod gofyn i grwpiau i gymryd camau tuag at hyrwyddo bioamrywiaeth yn gyson gyda'r goblygiadau fel sydd wedi eu gosod yn Adran 6 o'r Ddeddf Amgylchedd.<br>• Parhau i hyrwyddo Menter Ail-lenwi y Fenni – mae'r prosiect Ail-lenwi wedi colli cyllid gan y Llywodraeth ond mae'r Cyngor Tref dal yn hyrwyddo hyn drwy'r TIC a thrwy'r adeilad er mwyn sicrhau bod pobl yn gwybod bod poteli dŵr yn medru cael eu hail-lenwi ar bwyntiau gwahanol yn yr adeilad.<br>• Parhau trafodaethau gyda staff a disgyblion yn Ysgol Brenin Harri'r er mwyn dysgu mwy am yr hyn y mae disgyblion ifanc yn dymuno – yn sgil ail-ddatblygu'r Ysgol Brenin Harri i ysgol 3 – 19 mlwydd oed a Phennaeth newydd i'w apwyntio, nid yw'r cam gweithredu hwn wedi ei ddatblygu yn fwy hyd yma. |
| Cyngor Tref Cil-y-coed | • Blodau gwyllt a phlannu<br>• Cadw Cymru'n Daclus - hwb sbwriel, fflag werdd<br>• Monitro'r angen am ffynhonnell ynni amgen.<br>• Dyletswydd o dan Ddeddf Amgylchedd (Cymru) 2016 i gynnal a gwella bioamrywiaeth. |

| | |
|---|---|
| | • Hyb sbwriel ar gyfer benthyg cyfarpar yn ystod ac ar ôl y pandemig – ymgysylltu gyda'r cyhoedd er mwyn ymgymryd gyda gweithgareddau fel rhan o'r ymdrech ddyddiol i gadw'n heini.<br>• Cynyddu'r coed sydd yn cael eu plannu (fel rhan o Jiwbilî'r Frenhines ac wedi'r pandemig)<br>• Ystyried datrysiadau ynni amgen yn barhaus, yn enwedig o ran sicrhau bod eiddo'r Cyngor Tref yn gweithredu'n effeithlon<br>• Apwyntio ecolegydd ymgynghorol er mwyn cynorthwyo a chynghori gyda dyletswyddau yn ymwneud gyda bioamrywiaeth<br>• Deialog gyda Chyngor Sir Fynwy er mwyn sicrhau bod yr amcanion newid hinsawdd wedi eu halinio<br>• Adrodd yn flynyddol ar ddyletswydd fel rhan o Ddeddf Amgylchedd (Cymru) 2016 |
| Cyngor Tref Cas-gwent | • Argyfwng Hinsawdd – Roedd adroddiad Ynni Cas-gwent wedi ei gomisiynu a fydd yn cynnwys sawl prosiect y mae modd i'r Cyngor Tref eu hystyried drwy weithio gyda'r budd-ddeiliaid cymunedol.<br>• Bioamrywiaeth - Mae'r Cyngor Tref wedi sicrhau cyllid grant er mwyn cael mynediad at becyn 'gardd pili-pala' mewn partneriaeth gyda Chadw Cymru'n daclus ar gyfer plannu yng Ngorsaf Fysiau Cas-gwent. Mae hyn wedi ei ehangu fel rhan o'r trefniadau partneriaeth gyda Chyngor Sir Fynwy a Chriw'r Dref a nawr yn cynnig gwelliannau gweledol a oedd eu hangen eu gwneud i'r orsaf fysiau tra hefyd yn annog bioamrywiaeth.<br>• Glanhau'r Strydoedd - Mae'r Cyngor Tref yn gweithio mewn partneriaeth gyda Chyngor Sir Fynwy er mwyn darparu gwasanaeth glanhau'r strydoedd yng Nghas-gwent. Mae hyn yn cynnwys glanhau'r dref, gwacau biniau sbwriel, gofalu am diroedd, cynnal a chadw meinciau ac unrhyw ddyletswyddau cyffredinol eraill sydd eu hangen.<br>• Pontio Cas-gwent / Dim Plastig Cas-gwent – Yn parhau i gefnogi'r ddau grŵp yn ariannol.<br>• Casglu Sbwriel – mae'r Cyngor Tref yn cefnogi ac yn hyrwyddo grwpiau sydd yn casglu sbwriel ar draws y dref.<br>• Ymgyrch "Rhowch y Cerdyn Coch i Faw Cŵn" gan Gyngor Sir Fynwy – mae'r Cyngor Tref yn gyfrifol am wacau 35 o finiau baw cŵn ar draws Cas-gwent ac yn parhau i weithio gyda'r Cyngor Sir fel rhan o'r cynllun hwn i addysgu trigolion am y peryglon o ddaw o faw cŵn.<br>• Gwm Cnoi – Mae'r Cyngor Tref wedi gosod chwe Bin Gwm Cnoi yn y lleoliadau sydd yn fwyaf tebygol o brofi'r broblem hon, a hynny er mwyn annog pobl i roi gwm cnoi yn y bin mewn modd sydd yn cynnig economi gylchol. Mae lleoliad y biniau yn cael eu hadolygu'n gyson a'r biniau yn cael eu symud gan ddibynnu ar alw.<br>• Lleihau biliau ynni ar draws yr holl eiddo sydd yn berchen neu'n cael eu rheoli gan y Cyngor. Mae cyfleustodau Gatehouse wedi eu hadnewyddu gydag ynni gwyrdd rhannol. Mae arolwg wedi ei gynnal o'r holl eiddo sydd yn berchen / ar brydles gan y Cyngor a bydd yn dechrau yn 22/23 ar yr argymhellion.<br>• Ceisiadau Cynllunio – Mae'r holl geisiadau cynllunio yn cael eu hystyried ar gyfer eu heffaith amgylcheddol ynghyd â'r gofynion busnes a chymeriad hanesyddol y dref. |

| | |
|---|---|
| | • Ffynhonnau Dŵr Yfed. Mae'r ffynnon ddŵr yfed ym Mharc Dell Park yn mynd i gael ei hail-wampio dros y flwyddyn nesaf a ffynnon ddŵr newydd yn cael ei gosod yn Riverbank.<br>• Biniau Ailgylchu yn Riverbank – Mae biniau ailgylchu yn cael eu storio yn Riverbank sydd i'w defnyddio ar gyfer digwyddiadau am nawr ond mae hyn wedi ei newid fel eu bod yn cael eu defnyddio drwy'r flwyddyn. Mae trefniant mwy parhaol yn cael ei gadarnhau yn sgil llwyddiant yr ailgylchu.<br>• Storfa Eurobin To Gwyrdd – wedi ei osod ar Sgwâr y Banc sydd yn cynnwys storfa bin sbwriel i drigolion lleol gyda'r potensial ar gyfer gofod tyfu ffyniannus sydd yn dda ar gyfer bywyd gwyllt a'n denu pili palas, gwenyn a bywyd gwyllt arall.<br>• Cynyddu'r nifer o blanhigion yn y dref sydd yn addas ar gyfer pryfed peillio. Mae planhigion ychwanegol wedi eu gosod ar hyd a lled y dref ar gyfer y diben hwn. Mae contractwr blodau'r dref yn dod â'r planhigion o safleoedd na sydd yn cynnwys mawn, yn ail-ddefnyddio basgedi ac mae'r holl bridd ar ddiwedd yr haf yn cael ei ailgylchu.<br>• Ffyrdd o Weithio wrth lanhau'r strydoedd - mewn ymdrech i annog cyfleoedd bioamrywiaeth a chefnogi pryder peillio, mae'r Cyngor Sir wedi cytuno bod modd cadw rhan o'r Riverbank ar gyfer hau blodau gwyllt. At hyn, fel rhan o gytundeb partneriaeth Criw Glanhau Strydoedd y Dref, bydd Cyngor Sir Fynwy yn ystyried darparu credyd casglu sbwriel trydan a thynnu chwyn na sydd yn tarfu ar blanhigion eraill.<br>• Arolwg Ynni o'r Dref – Mae'r prosiect hwn yn parhau – mae arolwg wedi ei gomisiynu gan y Ganolfan Technoleg Amgen er mwyn llunio adroddiad sydd yn darparu gwybodaeth fel gwaelodlin presennol ac allyriadau $CO_2$, capasiti ar hyn o bryd ar gyfer ynni adnewyddadwy a chreu ynni adnewyddadwy a sut mae modd addasu hyn i anghenion Cas-gwent. Mae pwyllgor gwaith wedi ei sefydlu gan y Cyngor er mwyn medru ystyried unrhyw brosiectau y mae modd eu datblygu. |
| Cyngor Tref Trefynwy | • Cynyddu'r defnydd o blannu planhigion sydd yn dda ar gyfer pryfed peillio, a hynny yng nghanol y dref. Mae'r Cyngor Tref wedi cefnogi'r cais llwyddiannus a wnaed i wneud Trefynwy yn Dref ar gyfer Gwenyn. O ganlyniad, bydd yr holl blanhigion sydd yn cael eu plannu yng nghanol Trefynwy yn dda i bryfed beillio a heb unrhyw fawn.<br>• Cefnogi grwpiau gwirfoddolwyr sydd yn cyfrannu at ofalu am barciau'r dref – mae'r Cyngor Tref wedi cytuno ar bartneriaeth gyda ACE Trefynwy sydd yn ffocysu a'n pwysleisio ar Weithredu yn sgil yr Argyfwng Hinsawdd drwy wyliau, cyfarfodydd, cymorth a chanllawiau. At hyn, mae Grŵp Gwaith gan y Cyngor sydd yn cynnal statws y dref fel Tref ar gyfer Gwenwyn gan weithio gyda grwpiau fel Transition Monmouth a Bees for Development.<br>• Paratoi adroddiad yn amlinellu sut y mae'r Cyngor Tref yn cwrdd â'i oblygiadau o dan Adran 6 o Ddeddf Amgylchedd (Cymru) - mae'r adroddiad hwn wedi ei gynnwys fel rhan o Adroddiad Blynyddol y Cyngor ac wedi ei lanlwytho ar wefan y Cyngor.<br>• Cefnogi ymdrechion ar draws y sir – mae'r Cyngor Tref yn cefnogi'r ymgyrch Natur Wyllt a "No Mow May" sydd yn cael ei hyrwyddo gan Gyngor Sir Fynwy. At hyn, mae'r Cyngor yn gyfrifol am ddarparu a gwacau 41 sbwriel |

| | |
|---|---|
| | baw cŵn yn Nhrefynwy a'n gweithio'n agos gyda Chyngor Sir Fynwy a'r ymgyrch "Dangoswch y Cerdyn Coch i Faw Cŵn" a'r grŵp lleol 'Drop It, Bag It, Bin It'.<br>• Parhau â'r trafodaethau gyda staff a disgyblion yn Ysgol Gyfun Trefynwy er mwyn dysgu mwy am yr hyn y mae'r bobl ifanc yn dymuno o ran eu dyfodol a bioamrywiaeth y dref. Mae pobl ifanc wedi bod yn gweithio'n agos gyda Grŵp Sbwriel Cyngor Tref Trefynwy er mwyn parhau i hyrwyddo'r ymgyrch "Caru Trefynwy, Casáu Sbwriel" sydd yn cynnwys casglu sbwriel, cystadlaethau a gofyn i fusnesau lleol i gefnogi'r ymgyrch drwy arddangos eu sticer ymgyrch. |

| **Datblygu cyfleoedd i gymunedau a busnesau i fod yn rhan o sir sydd yn ffynnu'n economaidd ac wedi cysylltu'n dda** | |
|---|---|
| Cyngor Tref y Fenni | • Sefydlu Grŵp Gweithredu Canol Tref y Fenni - Mae hyn wedi ei esblygu i Grŵp Digwyddiadau newydd gyda rhestr bostio er mwyn rhannu gwybodaeth am unrhyw ddigwyddiadau yn y dref ac sydd yn dwyn pawb ynghyd yn gyson ar-lein er mwyn cynllunio a hysbysebu yn well a chydweithio er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cynnydd yn y nifer sydd yn mynychu'r digwyddiadau.<br>• Cyfrannu at ganol y dref sydd yn ffynnu'n economaidd – mae'r Cyngor Tref yn annog twristiaeth drwy'r hyn y mae'n gwneud, sef cymorth ariannol ar gyfer y Ganolfan Groeso, cyfrannu at gyhoeddi Ymweld â'r Fenni, cynnal digwyddiadau am ddim, Goleuadau Nadolig, a'r digwyddiad yn troi'r golau ymlaen, cymorth ariannol ar gyfer y gwyliau gwahanol a gynhelir yn y dref. Yn 2021-22, cyflwynwyd addurn newydd ar gyfer y Goleuadau Nadolig - "Sit-on Squashed Reindeer" ac roeddem wedi troi'r golau ymlaen yn rhithiol. Drwy gyfrwng Grant Trawsnewid Trefi, roedd y Cyngor Tref wedi ffilmio hyn ac wedi rhannu ar hyn ar y llwyfannau digidol gwahanol wrth ddynesu at y Nadolig ac wedi caniatáu'r cyhoedd i wybod eu bod ar agor i gwsmeriaid.<br>• Mae'r Cyngor Tref yn parhau i ddarparu gwasanaethau sydd yn creu canol tref sydd yn fwy dymunol a hygyrch, gyda chyfraniad sylweddol i Gyngor Sir Fynwy i ddarparu toiledau cyhoeddus a chamerâu cylch cyfyng drwy'r flwyddyn a chynnal planhigion y dref. Mae'r rhes o siopau annibynnol wedi nodi'r strategaeth hon o blannu drwy gydol y flwyddyn ac yn mabwysiadu cynllun tebyg. |
| Cyngor Tref Cil-y-coed | • Gweithio mewn parterniaeth gyda grwpiau, mudiadau a gwirfoddolwyr cymunedol.<br>• Cefnogi'r gymuned, economi a gweithgareddau ar gyfer trigolion<br>• Cyfraniad ariannol at ddigwyddiadau a gweithgareddau cymunedol ar gyfer trigolion.<br>• Cyfraniad ariannol at ddigwyddiadau cymunedol, Goleuadau Nadolig, y Carnifal, Tân Gwyllt a'r system troi ymlaen o bell<br>• Darparu camerâu cylch cyfyng ar hyd a lled y dref<br>• Datganoli gwasanaethau er mwyn cynnal toiledau cyhoeddus / plannu planhigion / cynnal a chadw'r arddangosfeydd yng nghanol y dref |

| | |
|---|---|
| | • Cefnogi grwpiau gwirfoddol i gynorthwyo i ddarparu gwasanaethau i'w cymunedau<br>• Cynnal perthynas gyda'r gymuned, drwy fynychu digwyddiadau'n rheolaidd (Maer/Dirprwy Faer) |
| Cyngor Tref Cas-gwent | • Cynllun Lle Cyfan - Dyma'r cam olaf pan mae holl wybodaeth yr ymgynghoriad wedi ei dderbyn a'i gasglu ac wedi arwain at lunio adroddiad sydd yn grynodeb a syniadau ar gyfer y camau nesaf sydd i'w cymryd.<br>• Gweithio gyda mudiadau / busnesau lleol sydd yn dod â masnach i'r dref. Mae'r Cyngor Tref yn cynnig cymorth fel bo angen ac yn darparu mannau parcio am ddim dros Gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd er mwyn denu pobl i'r dref.<br>• Cefnogi digwyddiadau ar hyd a lled y Dref - mae'r Cyngor Tref yn trefnu Bandiau ar y Bandstand bob Haf. Mae'n cefnogi digwyddiadau sydd yn cael eu trefnu gan Dîm Digwyddiadau Cas-gwent. Mae'n gweithio mewn partneriaeth gyda Green Top Events er mwyn paratoi marchnad wythnosol rhwng Mawrth a Rhagfyr ar ddydd Sul gan annog pobl leol i fwrw ati a chynnal stondinau eu hunain |
| Cyngor Tref Trefynwy | • Datblygu Stryd Monnow – Cefnogi'r gwelliannau i Stryd Monnow er mwyn annog twristiaeth a siopwyr lleol i ddod i'r ardal ar ôl y pandemig COVID 19 gan weithio gyda Siambr Fasnach Trefynwy a Chyngor Sir Fynwy.<br>• Cyfrannu at ganol y dref sydd yn ffynnu'n economaidd - Mae'r Cyngor Tref yn annog twristiaeth mewn sawl ffordd. Mae'r Cyngor yn cynnal 2 digwyddiad am ddim dros y Nadolig; marchnad Nadolig (drwy gydweithio gyda'r Siambr) a Pharêd Llusernau'r Nadolig. Mae'r Cyngor yn talu am hurio a pharatoi'r Goleuadau Nadolig yn ogystal â gwyliau eraill ar hyd a lled y dref gan gynnwys Beictown, Gŵyl y Dyfodol a'r Carnifal. Mae'r Cyngor Tref hefyd yn darparu gwasanaethau sydd yn sicrhau bod canol y dref sydd yn fwy dymunol a hygyrch, a hynny'n bennaf drwy wneud cyfraniad sylweddol i Gyngor Sir Fynwy am ddarparu toiledau cyhoeddus, glanhau'r strydoedd a chamerâu cylch cyfyng a phlannu drwy gydol y flwyddyn a gofalu am blanhigion. Roedd y Cyngor Tref wedi talu am faneri hanes newydd sydd wedi eu harddangos ar hyd a lled Stryd Monnow a Stryd Priory, sydd yn arddangos hanes cyfoethog Trefynwy er mwyn denu twristiaid lleol.<br>• Yn cefnogi busnesau lleol drwy'r Ceisiadau Cynllunio – mae'r Pwyllgor Cynllunio wedi bod yn frwd i annog busnesau newydd i ddod i Drefynwy yn ystod y pandemig drwy gymeradwyo'r newid mewn defnydd a wneir o adeiladau a chymeradwyo hysbysebion lle bo'n berthnasol. |

Mae'r Cynghorau Tref, sydd o dan y Ddeddf, wedi paratoi adroddiadau blynyddol mwy manwl, yn amlygu'r gwaith y maent wedi bod yn gwneud er mwyn cyflawni amcanion y Cynllun Llesiant. Mae'r adroddiadau yma ar gael drwy wneud cais i Dîm Partneriaethau Strategol Cyngor Sir Fynwy drwy e-bostio: partnerships@monmouthshire.gov.uk. Mae'r adroddiad yn amlygu sut y mae'r Cynghorau Tref a Chymuned wedi atgyfnerthu'r 5 ffordd o weithio, gan gadw at yr egwyddorion sydd yn rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd y Tîm Partneriaethau Strategol yn parhau i weithio gyda'r Cynghorau Tref er mwyn sicrhau bod perthnasau yn parhau'n gryf a bod y cyfleoedd sydd wedi eu nodi ynghynt yn cael eu defnyddio er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cydlafurio, gan sicrhau bod

cymunedau wrth wraidd unrhyw weithgarwch. Mae'r Cynghorau Tref a Chymuned a grŵp Cyflenwi Lleol Sir Fynwy, sydd yn is-grŵp lleoliad swyddogol o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent, yn mynd i barhau i weithio'n agos yn 22/23 gan sicrhau bod cyfathrebu effeithiol, cydweithio cryf a chynnwys y gymuned mewn modd gwirioneddol sydd yn rhan annatod o weithio mewn partneriaeth ar draws Sir Fynwy.

# Sut ydym yn gwneud?

## Dangosyddion Cenedlaethol

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi 46 dangosydd cenedlaethol sydd yn meddu ar rôl bwysig yn helpu mesur y cynnydd sydd wedi ei wneud tuag at gyflawni'r amcanion. Mae'r dangosyddion yma wedi eu defnyddio yn Sir Fynwy er mwyn helpu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddeall lles economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.

Tra na fydd y dangosyddion cenedlaethol ym mesur perfformiad y cyrff cyhoeddus unig neu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, rhaid iddynt gael eu hystyried gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn monitro'r cynnydd sydd yn cael ei wneud yn erbyn yr amcanion llesiant, ac os yw'r data lleol ar gael, y cynnydd sydd wedi ei wneud yn Sir Fynwy.

Mae rhai o'r dangosyddion cenedlaethol sydd yn berthnasol i'n hamcanion wedi eu nodi yn ein Cynllun Llesiant. Mae'r data diweddaraf ar gyfer y dangosyddion yma, lle y mae yna ddiweddariad ar gael ar lefel sirol, ar gael yn Nhabl 1. Mae hefyd yn medru bod yn ddefnyddiol yn cymharu Sir Fynwy ag awdurdodau eraill sydd â nodweddion tebyg. Mae cymariaethau yn seiliedig ar offeryn Awdurdodau Cymharol Data Cymru ar gyfer awdurdodau lleol Cymru a'r amrywiaethau sydd wedi eu dethol a'n ymwneud gyda maes sydd yn rhan o'r dangosydd. Ni fydd pob un dangosydd yn cynnwys y data sydd ar gael er mwyn gwneud y gymhariaeth hon.


Mae cyfnod y data sydd yn rhan o'r diweddariad yma yn amrywio yn ôl y dangosydd, gan y bydd y rhai dangosyddion yn cynnwys cyfnod y pandemig tra y bydd eraill yn cynnwys y cyfnod cyn y pandemig.


## SYG yn Mesur Llesiant Cenedlaethol


Mae rhaglen Mesur Llesiant Cenedlaethol y Swyddfa Ystadegau Gwladol hefyd yn asesu llesiant personol fel rhan o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol. Mae'r arolwg yn gofyn y cwestiynau canlynol:


- Bodlonrwydd Bywyd – Ar y cyfan, pa mor fodlon ydych gyda'ch bywyd ar hyn o bryd?
- Gwerth Chweil – Ar y cyfan, i ba raddau ydych yn teimlo bod y pethau yr ydych yn gwneud dyddiau yma yn werth chweil?
- Hapusrwydd – Ar y cyfan, pa mor hapus oeddech yn teimlo ddoe?
- Gorbryder – gan roi sgôr lle y mae 0 yn golygu "nid wyf yn orbryderus o gwbl" a 10 yn dynodi "hynod orbryderus", pa mor orbryderus oeddech yn teimlo ddoe?

Mae'r adroddiadau blynyddol llawn ar gyfer Sir Fynwy (o 2020/21) ar gyfer y cwestiynau yma yn cael eu dangos yn y graffiau isod ar y cyd gyda'r cyfartaledd ar gyfer y DU a Chymru. Mae hyn yn dangos bod ymatebion trigolion Sir Fynwy ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y DU a Chymru ar gyfer pob un mesur, sydd yn cynnwys sgôr ychydig yn is ar gyfer gorbryder.










Esiampl o farn pobl yn cael ei gofnodi am les unigolion yn sgil y coronafeirws (COVID-19) yw arolwg y SYG ar effaith y Coronafeirws ar fywyd o ddydd i ddydd ym Mhrydain Fawr. Mae'n dangos effaith y pandemig ar lesiant; mae data ar gyfer Prydain Fawr o Fawrth 2020 i Fedi 2021 ac yn dangos bod y sgoriau yn weddol debyg i'r lefelau cyn y pandemig:









## Diweddariad Asesiad Llesiant

Fel rhan o ddatblygu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent, mae dull integredig a chydweithredol wedi ei ddefnyddio er mwyn llunio'r Asesiad Lles diweddaraf yn 2022. Mae hyn yn asesu lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal a'r bobl sydd yno, nawr ac yn y dyfodol.

Mae'r asesiad yn cynnwys asesiad o holl ardaloedd Gwent, asesiad o Sir Fynwy a'r pum ardal leol o fewn Sir Fynwy; y Fenni a'r ardal gyfagos; Trefynwy a'r ardal gyfagos; calon Sir Fynwy sydd yn cynnwys Brynbuga a Rhaglan; Cas-gwent a Rhan Isaf Dyffryn Gwy a Glannau Hafren sydd yn cynnwys Cil-y-coed a Magwyr.

Mae'r asesiad yn defnyddio ystod eang o ddata, ymchwil academaidd, tystiolaeth a barn pobl sydd yn cael ei gasglu drwy ymarfer ymgysylltu, er mwyn helpu deall cyflwr lles presennol a'r cyflwr yn y rhanbarth yn y dyfodol, ynghyd â'r hyn sydd yn digwydd yn Sir Fynwy a'r pum ardal leol sydd yn rhan o Sir Fynwy.

Mae asesiadau Gwent a Sir Fynwy ar gael i'w gweld yma http://www.gwentpsb.org/en/well-being-plan/well-being-assessment/

| Tabl 1: Dangosyddion Cenedlaethol | Ffynhonnell | Cysylltiad gyda'r Amcan | Cymru | Meysydd cymharol debyg | Sir Fynwy - Blaenorol | Sir Fynwy - Cyfredol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran yr oedolion sydd yn meddu ar lai na dau ymddygiad sydd yn hyrwyddo ffordd o fyw iachus (dim ysmygu, pwysau iachus, bwyta pum ffrwyth neu lysiau'r diwrnod, nid yn yfed yn fwy na'r canllawiau a'n cwrdd â'r canllawiau gweithgarwch corfforol) | Arolwg Cenedlaethol Cymru | Amc 1 & 2 | 10% (2018/19 & 2019/20) | 11% (Ceredigion)<br><br>8% (Gwynedd)<br><br>11% (Wrecsam) | 6% (2017/18 & 2018/19) | 7% (2018/19 & 2019/20) |
| Sgôr 9 pwynt cyfartalog ar gyfer disgyblion (dros dro)<br><br>(Cyflwynwyd y mesur dros dro yn 2019 ac mae'n disodli'r hen fesur o 8 pwynt cyfartalog) | Cronfa Arholiadau Cymru | Amc 1 & 4 | 354.4 (2019) | 362.4 (Gwynedd)<br><br>382.5 (Ceredigion)<br><br>358.8 (Powys) | Nid yw hyn ar gael | 367.4 (2019) |
| Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) am bob awr sy'n cael ei gweithio (o'i gymharu â chyfartaledd y DU) | Dadansoddiad Economaidd Rhanbarthol SYG: dangosyddion cynhyrchiant | Amc 4 | 84.1 (2019) | 90.5 (Bro Morgannwg a Chaerdydd) | 85.4 (2018 – Sir Fynwy a Chasnewydd) | 85.5 (2019 - Sir Fynwy a Chasnewydd) |
| Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) am bob awr sy'n cael ei gweithio (£)<br>(Nid yw'n ddangosydd cenedlaethol ond wedi ei ychwanegu fel cyd-destun pellach i'r dangosydd cenedlaethol "O'i gymharu â chyfartaledd y DU" fel sydd i'w weld uchod ) | Dadansoddiad Economaidd Rhanbarthol SYG: dangosyddion cynhyrchiant | Amc 4 | £29.6 (2019) | £31.8 (Bro Morgannwg a Chaerdydd) | £29.7 (2018 – Sir Fynwy a Chasnewydd) | £30.1 (2019 – Sir Fynwy a Chasnewydd) |
| Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen | SYG, incwm gwario gros aelwydydd y pen | Amc 4 | £17,263 (2019) | £19,987 (Bro Morgannwg)<br><br>£18,287 | £21,707 (2018) | £21,392 (2019) |

| Tabl 1: Dangosyddion Cenedlaethol | Ffynhonnell | Cysylltiad gyda'r Amcan | Cymru | Meysydd cymharol debyg | Sir Fynwy - Blaenorol | Sir Fynwy - Cyfredol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | (Powys)<br><br>£15,941<br>(Gwynedd) | | |
| Canran o'r boblogaeth mewn swyddi. | [SYG, Arolwg Poblogaeth Blynyddol] | Amc 4 | 72.2%<br>(blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2021) | 72.9%<br>(Bro Morgannwg)<br><br>75.3%<br>(Powys)<br><br>69.8%<br>(Gwynedd) | 79.4%<br>(blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2020) | 78.3%<br>(blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2021) |
| Canran y bobl sydd yn byw mewn aelwydydd sydd ag amddifadedd materol. | [Arolwg Cenedlaethol Cymru] | Amc 1, 2 a 4 | 13%<br>(2019/20) | 8%<br>(Bro Morgannwg)<br><br>10%<br>(Powys)<br><br>11%<br>(Gwynedd) | 9%<br>(2018/19) | 10%<br>(2019/20) |
| Lefelau'r llygredd o nitrogen deuocsid (NO2) yn yr aer. | [Adran Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig] | Amc 3 | 9<br>(2019) | 6<br>(Sir Ddinbych)<br><br>4<br>(Ceredigion)<br><br>7<br>(Conwy) | 8<br>(2018) | 8<br>(2019) |
| Capasiti (MW) y cyfarpar ynni adnewyddadwy sydd wedi ei osod | [Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol] | Amc 2 a 3 | 3515.5<br>(2019) | 244.5<br>(Sir Ddinbych)<br><br>187.7 | 85.3<br>(2018) | 85.4<br>(2019) |

| **Tabl 1: Dangosyddion Cenedlaethol** | **Ffynhonnell** | **Cysylltiad gyda'r Amcan** | **Cymru** | **Meysydd cymharol debyg** | **Sir Fynwy - Blaenorol** | **Sir Fynwy - Cyfredol** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | (Ceredigion)<br><br>754.7 (Conwy) | | |
| Canran y bobl sydd yn fodlon gyda'u gallu i gyrraedd y cyfleusterau a'r gwasanaethau y maent eu hangen. | Arolwg Cenedlaethol Cymru | Amc 1, 2, 3 a 4 | 87% (2020/21) | 91% (Sir Benfro)<br><br>84% (Ynys Môn)<br><br>88% (Gwynedd) | 79% (2018/19) | 88% (2020/21) |
| Canran y bobl sydd yn fodlon gyda'r ardal leol fel lle i fyw. | Arolwg Cenedlaethol Cymru | Amc 1, 2, 3 a 4 | 87% (2020/21) | 86% (Sir Benfro)<br><br>94% (Ynys Môn)<br><br>93% (Gwynedd) | 92% (2018/19) | 84% (2020/21) |
| Canran y bobl sydd yn Gwirfoddoli. | Arolwg Cenedlaethol Cymru | Amc 1, 2, 3 a 4 | 26% (2019/20) | 32% (Sir Benfro)<br><br>28% (Ynys Môn)<br><br>33% (Gwynedd) | 36% (2016/17) | 32% (2019/20) |
| Canran y bobl sydd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy'r wythnos. | Oedolion – Arolwg Cenedlaethol Cymru | Amc 2 a 3 | 32% (2019/20) | 34% (Ceredigion)<br>33% (Gwynedd) | 38% (2018/19) | 36% (2019/20) |

| Tabl 1: Dangosyddion Cenedlaethol | Ffynhonnell | Cysylltiad gyda'r Amcan | Cymru | Meysydd cymharol debyg | Sir Fynwy - Blaenorol | Sir Fynwy - Cyfredol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 34% (Wrecsam) | | |
| | Plant – Arolwg Chwaraeon Ysgolion, Chwaraeon Cymru S | Amc 1 a 3 | 47.6% (2018) | 52.5% (Ceredigion)<br>48.8% (Gwynedd)<br>44.2% (Wrecsam) | 48.8% (2015) | 45.0% (2018) |

# Camau Nesaf

Mae Cynllun Llesiant presennol Sir Fynwy yn amlinellau'r amcanion a'r camau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn y Sir hyd at 2023. Mae angen parhau i ffocysu ar gyflenwi'r rhain er mwyn gwella llesiant yn Sir Fynwy. Bydd y cynllun hwn yn parhau i gael ei weithredu gan drefniadau parterniaeth lleol yn Sir Fynwy.

Mae ffurfio Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent yn rhoi'r cyfle i wella llesiant pobl ar draws Gwent drwy wella'r ffordd yr ydym yn cydweithio. Yr hyn sydd yn hanfodol i'r ffordd yr ydym yn gweithio yw parhau i gyflenwi ar lefel leol ac atebolrwydd a ffocws parhaus ar weithio mewn partneriaeth ar brosiectau sydd yn benodol i lesiant yn Sir Fynwy. Bydd trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a chydlafurio yn Sir Fynwy angen parhau ac esblygu. Bydd datblygu'r trefniadau partneriaeth lleol yn alinio gyda'r trefniadau rhanbarthol, gan sicrhau bod ethos Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn parhau wrth wraidd y strwythur yma.

Mae asesiad llesiant rhanbarthol, sydd yn cynnwys asesiad o lesiant yn Sir Fynwy a'r cymunedau lleol sy'n rhan o hyn, wedi ei ddatblygu. Wedi ei lywio gan hyn, mae yna Gynllun Llesiant newydd ar gyfer Gwent yn cael ei ddatblygu erbyn 2023 yn unol gyda gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd hyn yn gosod amcanion llesiant cyffredinol a fydd yn cael eu cyflawni drwy gyfrwng gweithgarwch rhanbarthol a lleol. Maent yn debygol o fod yn gamau gweithredu lleol, sydd yn adlewyrchu'r gwahaniaethau mewn anghenion ar gyfer llesiant ar draws ardaloedd gwahanol Gwent, a fydd yn benodol ar gyfer lleoliad ac wedi ei gadarnhau gan fwy nag un darn o dystiolaeth o'r asesiad llesiant.

Bydd y Bwrdd Rhaglen yn Sir Fynwy (Partneriaethau Cyflenwi Lleol) yn gyfrifol am gyfrannu at y camau gweithredu rhanbarthol ynghyd ag unrhyw weithgarwch lleol penodol. Bydd y Bwrdd yn arwain rôl Sir Fynwy yn cyflenwi unrhyw gamau gweithredu rhanbarthol ar lefel leol ynghyd â'r rhai sydd yn benodol i Sir Fynwy, gan sicrhau bod anghenion llesiant Sir Fynwy yn cael eu blaenoriaethu'n lleol a'u hintegreiddio o fewn y cyflenwi rhanbarthol fel sydd yn briodol.